
PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 402 | Hydref 2017



'Ymwelwyr' ar Draeth y Borth t.17



Glesni ym Mrwsel t.13

Maes Cyffin neu Maes Ceiro?




t.11

# Enillwyr Minecraft

Ffantastig oedd gweld dau dîm o Ysgol Penrhyn-coch yn dod yn ail a thrydydd yn y gystadleuaeth Minecraft a drefnwyd gan Cered. Roedd y safon yn uchel iawn felly mae'r timau wedi gwneud yn wych. Roedd yn rhaid i'r bobl ifanc weithio mewn grwpiau a chreu unrhyw beth yn ymwneud â'r Afon Teifi - boed yn hanesyddol neu'n gyfoes, ar lan neu wrth ymyl yr afon, neu o dan y dŵr! Roedd yn rhaid iddynt recordio fideo canllaw (walkthrough) Cymraeg. Bwriad y gystadleuaeth hefyd oedd i dargedu plant a phobl ifanc sydd fel arfer ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg ac i'w cael nhw i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol ffyrdd.




Lacey, Zara a Molly ddaeth yn ail. "Roeddem wrth ein boddau gyda'r canlyniad. Fe ddaru ni fwynhau y gystadleuaeth yn fawr iawn! "




Llun: Arvid Parry-Jones

Yn ddiweddar cyflwynodd y Prif Gwnstabl Mark Collins dystysgrif gwasanaeth 50 mlynedd i'r Swyddog Ymholiadau John Graham Jones, Maes Afallen, Bow Street yng nghanolfan gynhadledd Gorsaf Heddlu Aberystwyth. Yn y llun hefyd gwelir yr Uchel Siryf Sue Balsom a'r Arolygwr Robyn Mason.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Tachwedd: Deunydd i law: Tach 3 Dyddiad cyhoeddi: Tach 15**

**HYDREF 18** Nos Fercher Richard E. Huws yn sôn am ei gyfrol *Enwau tai a ffermydd presennol cymuned Bont-goch (Elerch)* Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**HYDREF 20** Nos Wener 'Trysorau personol' gyda Gweneira, Gwynant, Marian J. a Vernon. Noson agoriadol Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**HYDREF 21** Nos Sadwrn John ac Alun a Wil Tân nôl yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00. Tocynnau: £10 ar gael o'r Gwesty neu gan Megan Jones – 01970 612768. Holl elw'r noson yn mynd at yr elusen Beiciau Gwaed Cymru.

**HYDREF 22** Nos Sul Alawon fy ngwlad: cyflwyniad gan Arfon Gwilym a Sioned Webb yn Arad Goch, Aberystwyth am 7.30. Coffi a the i ddilyn. Darlith goffa Meredydd Evans; trefnir gan Ffrindiau Pantycelyn; noddir gan *y Faner Newydd*

**HYDREF 26** Nos Iau Caryl Lewis 'Natur y gair' Darlith Goffa Islwyn Ffowc Elis yn festri Capel Brondeifi, Llanbedr Pont Steffan am 7.30 (Gŵyl Golwg)

**HYDREF 28** Nos Sadwrn Cofiwch droi yr awr yn ôl.

**HYDREF 31** Pnawn Mawrth Parti Calan Gaeaf Cylch Meithrin Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch o 4.00-6.00 Cystadlaethau gwisg ffansi a pwmpen gorau. Stondin gacennau. Dip lwcus. Raffl. Melysion mewn jar. Mynediad £2 i blant. Oedolion am ddim! Dewch i ymuno yn yr hwyl.

**TACHWEDD 4** Dydd Sadwrn Hanes Gwasg Gomer drwy daith yng nghwmni Mr John B. Lewis. Cyfarfod yng Ngwasg Gomer, Llandysul am 11.00 Cyfarfod o Gymdeithas Hanes Ceredigion

**TACHWEDD 10** Nos Wener Caws a gwin; adloniant gan Meibion y Mynydd yn Neuadd Rhydypennau am 7.30. Llywydd: Mrs Meinir Lowry. Tocyn £7.50

**TACHWEDD 10** Nos Wener Sioe Ffasiwn Cylch Merched Aberystwyth yng Ngwesty'r Marine am 7.30. Dillad gan Steil, M & Co a Lily's Boutique yng nghwmni Yvonne (Tywydd) Evans. Adloniant gan Côr Tenovus. Cyfle i edrych ar y stondinau o 6.30 ymlaen. Mynediad drwy docyn £10 ar gael o JB's, Gwesty'r Marine, Steil a Lily's Boutique. Holl elw'r noson tuag at amrywiol elusennau.

**TACHWEDD 15** Nos Fercher Yr Athro Peredur Lynch yn trafod ei gyfrol *Caeth a rhydd* (Gwasg Carreg Gwalch) Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mehefin 2017

**£25** (Rhif 142) Yr Athro H Carter, Tyle Bach, Bow Street
**£15** (Rhif 168) Jane Jones, 107 Maesceinion, Aberystwyth
**£10** (Rhif 280) Gwenan Davies, 48 Ger-y-llan, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mehefin 14

a mis Medi 2017

**£25** (Rhif 300) Richard Wyn Davies, 48 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
**£15** (Rhif 232) Llinos Evans, Dolwerdd, Dôl-y-bont
**£10** (Rhif 285) Nerys Roberts, 4 Garnwen, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng Nghyfarfod Blynyddol Y Tincer yn festri Horeb, Penrhyn-coch nos Lun Medi 11.

## 30 MLYNEDD YN OL



Y dynion a fu'n gyfrifol am eu swper blynyddol, Cymdeithas Trefeurig yn ddiweddar. Llun: Edwina Davies (o *Dincer* Hydref 1987)

**Dathlu 20 mlynedd o efeillio**

Braf oes gweld nifer o bobl ifanc o ardal y Tincer yn cymryd rhan mewn cyngerdd yn Eglwys Llanbadarn nos Lun, Hydref yr ail - ar y cyd rhwng Band Ysgolion Aberystwyth, Côr Ysgol Penglais a chôr o'r Altkonigschule, Kronberg ger Frankfurt yn yr Almaen. Mae tref Aberystwyth wedi ei gefeillio gyda Kronberg ers ugain mlynedd.

**Ffarwelio â Zoe**

Cynhaliwyd oedfa flynyddol Menter Gobaith, sef Menter Gydenwadol Gogledd Ceredigion, fore Sul 24 Medi, a hynny eleni yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth dan arweiniad Eifion Roberts. Yn ogystal â chael cyfle i fwynhau addoli gyda'n gilydd fel eglwysi'r ardal, cafwyd cyfle hefyd yn yr oedfa i ddangos ein gwerthfawrogiad didwyll o waith Zoe Glynne Jones, sydd wedi bod yn weithiwr plant ac ieuenctid i'r Fenter ers tair blynedd a hanner. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu Zoe yn trefnu ac arwain clybiau a gweithdai a gweithgareddau o bob math i blant ac ieuenctid yng ngogledd Ceredigion, gan gynnwys Clwb CIC a Chylch Ti a Fi ym Mhenrhyn-coch. Sefydlodd berthynas arbennig gyda chynifer ohonynt hwy a'u teuluoedd, gan ddangos gofal arbennig tuag atynt wrth rannu cariad Iesu Grist. Diolchwyd i Zoe gan Dewi Hughes, Capel y Garn, ar ran y Fenter, ac er y byddwn yn gweld ei heisiau'n fawr iawn yn y gwaith, mae'n braf meddwl y bydd Zoe yn aros yn yr ardal. Dymunwyd yn dda iawn iddi wrth ddechrau ar gwrs yn y Brifysgol yn Aberystwyth.




# Hwb i Addysg Gymraeg – Cronfa Glyndŵr

Fe gafodd Cronfa Glyndŵr ei sefydlu yn 1963, ond mae'r cadeirydd presennol, yr hanesydd Catrin Stevens, yn awyddus i adael i genhedlaeth newydd sy'n gweithredu dros yr iaith Gymraeg wybod fod grantiau i'w cael i hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae Cronfa Glyndŵr wedi cyfrannu dros £28,000 at 80 o brosiectau gwahanol ym mhob cwr o Gymru, ers 2011.

Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys Cylch Meithrin Felinfach a ddefnyddiodd yr arian i brynu adnoddau, a RhAG Gogledd Powys ar gyfer cynnal arolwg yn yr ardal.

Gellir cael hyd i wybodaeth am sut i wneud cais ar wefan Cronfa Glyndŵr, sef www.cronfaglyndwr.cymru.

Yn ogystal â gwahodd mwy o geisiadau, mae'r Gronfa hefyd yn edrych am ragor o gyfranwyr hael. "Mae'n ffordd wych o helpu addysg Gymraeg", meddai Catrin Stevens. "Mae cyfraniad bach gan y Gronfa i brosiectau addysg Gymraeg yn gall gwneud gwahaniaeth rhwng llwyddo neu fethu".

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Capel Pen-llwyn**
**Hydref**

22 5.00 Y Parchg Judith Morris
29 10.00 Oedfa'r ofalaeth – Rehoboth, Taliesin

**Tachwedd**

5 5.00 Bugail
12 2.00 Bugail
19 2.00 Llwyn-y-groes Roger Ellis Humphreys
26 10.00 John Tudno Williams

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Fridfa Arthen ar ei llwyddiant yn y sioeau eleni. Arthen Model Mai oedd y cyntaf i flasu llwyddiant wrth ddod yn drydydd yn Sioe Aberystwyth ac Is-bencampwr Adran Cobiau D ag Is-bencampwr ieuanc yn Sioe Ceredigion Cymdeithas Merlod a Chobiau Cymraeg. Aeth ymlaen wedyn i gael trydydd yn y Sioe Frenhinol ac wedyn yn ei sioe leol roedd yn is- bencampwr ar y cae. Yn sioe Capel Bangor profodd Ewyn Showgirl lwyddiant hefyd drwy ddod i'r brig yn yr Adran C ac hefyd yn bencampwr y stoc ifanc yn adran ABCD, roedd hefyd yn i- bencampwr Adran C yn Sioe Llanilar a Thal-y-bont. Arthen Iola oedd is-bencampwr Adran D yn Nhal-y-bont.



Elwyn Showgirl gyda Ioan Evans



Arthen Iola gyda Mrs Davies, Glasfryn a Ioan



Arthen Model Mai

**Dymuniadau gorau**

Dymunwn yn dda i'r Parchg Andras Iago – mab y Parchg Watcyn a Mrs Lowri James gafodd ei sefydlu yn weinidog Eglwysi Bro Dinbych pnawn Sadwrn 30 Medi.

**Merched y Wawr Melindwr**

Daeth bron pawb at ei gilydd i ymweld ag Amgueddfa Ceredigion yn Aberystwyth. Fe'n croesawyd gan Anna Evans, Cyfarwyddwr Addysg. Rhoddwyd cyflwyniad hanesyddol am gychwyn yr ail adeilad yn 1904 gan i'r adeilad gwreiddiol gael ei ddinistrio gan dân. Fe'i hailadeiladwyd gan y perchennog David Phillips a chrëwyd theatr yn y fan. Roedd y fenter yn llwyddiannus yn y cyfnod hyn oherwydd maint o ymwelwyr oedd yn sefyll ar ei gwyliau yn y dref.

Yn fwy diweddar – yn y chwedegau – roedd hanes Mrs Gale a'i mab – perchnogion y Coliseum yn gyfarwydd i'r mwyafrif ohonnom. Rhai yn cofio mwynhau prynhawn Sadwrn yn gwylio filmiau cowbois cyn cael sglodion ar y ffordd adref.

Yn yr wythdegau prynodd y cyngor yr adeilad ar gyfer yr Amgueddfa newydd.

Eleni gwelwyd cyfnod newydd yn hanes yr adeilad gyda mynedfa newydd yn cynnwys caffi siop a lifft pwrpasol. Roedd y teils yn y tŷ bach a'r cerfluniau o flaen y ddesg yn atgoffa pawb am hanes yr hen adeilad.

Gyda hynny cafwyd cyfle i fynd o amgylch ac i weld mannau lle nad oedd mynediad i'r cyhoedd lle roedd llawer o arteffactau yn cael eu cadw.

Diolchwyd yn fawr gan ein Llywydd Lynne Davies i Anna am amser mor hanesyddol a diddorol cyn i ni ailsefydlu yn Llety Parc i gael cyfarfod byr gyda lluniaeth. Croesawyd aelod newydd i'n plith. Diolchwyd i bawb wnaeth gyfrannu at stondin cacennau lwyddiannus Cartef Tregerddan yn ddiweddar. Dewiswyd o fwydlen ein cinio Nadolig mis Rhagfyr. Penderfynwyd ar gyfraniadau lluniaeth i gyfarfod mis Tachwedd pan fyddwn yn croesawu canghennau atom i fwynhau noson o gwis.



Roedd yn dda gweld Daniel Calan Jones, disgybl yn Ysgol Gyfun Plasmawr, Caerdydd ac aelod o Ddawnswyr Bro Taf – ŵyr Hywel ac Enid Jones, Awel Deg, yn cystadlu ar Ysgoloriaeth Bryn Terfel nos Sul 15 Hydref.

**Llongyfarchion**

Rhaid llongyfarch Mrs Doreen Davies, Glasnant, ar enedigaeth ei gor wyres yn ddiweddar sef Cadi Grug o Gemaes. Mae Maretta yn ferch i Mrs Davies, a'i merch hithau Llinos yw mam y ferch fach newydd. Mae gan Mrs Davies 9 o or wyrion, 8 bachgen ac un ferch fach erbyn hyn. Mi gaiff hon ddigon o sylw mae'n siwr.

Dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Linda Morris Glennydd, wedi colli ei chwaer sef Mrs Marion Jones, Pen-bont Rhydybeddau. Bu yn anffodus iawn i gwympo, a hithau mewn gwth o oedran, ond yr un yw y golled. Cofiwn am Mr a Mrs Morris a'r cysylltiadau oll yn eu hiraeth.

**Marwolaeth**

Cydymdeimlwn â Mr Gerald Ingram, Sunnycroft, sydd wedi colli ei chwaer, sef Mrs Gwyneth Smart. 'Roedd Gwyneth wedi dioddef ers nifer o flynyddoedd ac yn teithio ddwywaith yr wythnos i ysbyty Bron-glais i dderbyn dialysis. Ond yng

Nghartref Cwmcynfelin oedd, ers tro yn derbyn y gofal gorau.

Arferai Gwyneth fyw yn Sunnycroft – cartref ei rhieni gyda'i brawd Gerald, a fu yn gefn iddi ar hyd blynyddoedd ei salwch. Bu Gwyneth yn aelod ffyddlon yng nghapel Pen-llwyn, ac yn yn y gorffennol rhoddodd ei phresenoldeb yn gyson. Cofiwn am Michelle ei merch, a wnaeth prin adael gwely ei mam, yn nyddiau olaf ei bywyd. Hefyd Margaret ei chwaer a'r ddau frawd Michael a Gerald a'u teuloedd i gyd. Boed i Dduw fod yn agos yn nyddiau eu hiraeth.

**Gwella**

Da clywed fod Mr Arnold Evans, Cwmwythig, yn well ar ôl ei anffawd yn ddiweddar.

**Dymuniadau hwyr**

Mae rhywun pwysig iawn o siop Exchange, wedi dathlu ei ben blwydd yn un ar hugain oed ar y cyntaf o Hydref. sef Daniel Bentham, 2 Cefnmelindwr.

Mae Daniel yn siriol bob amser ac yn awyddus i estyn cymorth i'r cwsmer, pan bo eisiau. A marciau llawn iddo, bob dydd, yn siarad mwy o Gymraeg!

Pen blwydd hapus hwyr i ti Daniel, a gobeithio y cefaist ben blwydd wrth dy fodd!

**Siarad o Beijing**

A ninnau yn gweld Jacob Ifan Prytherch ar y teledu ar nosweithiau Sul roedd yn ddiddorol clywed ei frawd Harri Prytherch yn siarad ar raglen Al Hughes y radio o Beijing fore Llun Hydref 2il.


Gwaith Harri yw dylunio ffram e-feiciau a moduron a batris a sensors i fynd arnynt. Beiciau trydan yw marchnad y dyfodol ac maent ar hyn o bryd yn apelio i bob oed.

Ar ôl graddio mewn cynllunio cynnyrch yn yr Athrofa yng Nghaerdydd bu'n gweithio yn Hamburg am dair mlynedd cyn penderfynu dilyn ffrind i China lle mae yn mwynhau byw. Dymuniadau gorau iddo

**Adnewyddu Tafarn**

Da clywed fod Tafarn y Maes yn cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd a bydd yn ail-lansio yn fuan. Bydd Mrs Margaret Phillips a'i thîm yn agor y drysau ddiwedd mis Tachwedd ac meant yn edrych ymlaen at groesawu cwsmeriaid. Tafarn / bwyty gwledig yw Tafarn Y Maes sy'n gwasanaethu bwyd o ansawdd uchel, sy'n cynnwys cynhwysion lleol a thymhorol. Bydd Tafarn y Maes yn dafarn leol i ymfalchïo ynddi ac maent yn edrych ymlaen at ail sefydlu timau dartiau a phŵl Bydd croeso i deuluoedd yn Nhafarn y Maes.

## **O'r Cynulliad** Elin Jones



Yn y Cynulliad, llwyddodd Plaid Cymru i ddod i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru ar y gyllideb nesaf. O ganlyniad i hyn, mae yna nifer fawr o faterion a fydd o fudd i Geredigion.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau –

1. Ariannu Canolfan Iechyd Integredig Aberteifi yn llawn yn 2018-19
2. Gwarchod ariannu'r Llyfrgell Genedlaethol, Cyngor Llyfrau, cwmnïau celfyddydol a chyllid newydd i'r Mudiad Meithrin
3. Cynllun Mynediad Ffermwyr Ifanc newydd
4. Coets yn lle bws ar y teithiau pellter -hir Traws Cymru
5. Cyllideb benodol i welliannau ar yr A487
6. Cyllido pwyntiau trydan i geir
7. Mwy o gyllid i'n prifysgolion
8. Ariannu ychwanegol i iechyd meddwl, hosbisis, hyfforddi meddygol, twristiaeth a mwy, mwy.

Mae yna drafodaeth fyw ar hyn o bryd am ofal yng Ngheredigion, lle mae 28% o gartrefi gofal yn cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn uwch na'r holl gynghorau eraill, heblaw am un. Mae yna rai cynghorau yng Nghymru lle mae pob cartref gofal yn cael ei redeg yn breifat.

Dylai fod gofal a ariennir yn gyhoeddus, i'r rheiny sydd ei angen, fod yn gonglfaen i'n cymdeithas. Gyda'r trafodaethau presennol o gwmpas Bodlondeb yng ngogledd Ceredigion, rwyf wedi dweud wrth y Cyngor nad wyf yn credu y dylid cymryd unrhyw gamau heb ystyried cynllun hirdymor ar gyfer gofal henoed yn ein sir, a'i bod yn bwysig iawn i gadw cartrefi preswyl cyhoeddus.

Trist iawn oedd clywed ein bod wedi colli Aneurin Jones, yr artist o Aberteifi y mis hwn. Fe roedd yn artist a adlewyrchodd ei fro yn ei gelf, gyda chymeriadau cefn gwlad yn dod yn fyw yn ei waith. Roedd ei gyfraniad i'r celfyddydau yng Nghymru yn enfawr.



**Llun buddugol Sioe Capel Bangor yn y dosbarth a noddwyd gan Y Tincer. Y testun oedd llun anifail neu blanhigyn o ongl anarferol. Barbara Clarke, Nantyrarian oedd yn llwyddiannus.**

## TREFEURIG

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlir â Edwina Davies, Darren Villa, a'r teulu, a Meriel Ralphs, ar farwolaeth mam a mam-gu – Marion Jones, Nantlais.

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# PENRHYN-COCH

**Gwasanaethau Horeb**
*Hydref*
22 10.30 Y Parchg John Roberts
29 10.30 Y Parchg Peter Thomas

*Tachwedd*
5 2.30 Y Parchg Peter Thomas
12 10.00 I'w drefnu - Sul y Cofio
19 2.30 Y Parchg Wyn Rh Morris
26 10.30 Y Parchg Peter Thomas

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 25 Hydref a 8 a 22 Tachwedd. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Cymdeithas y Penrhyn**
Cledwyn Hughes, y gwleidydd o Fôn, oedd testun anerchiad y Parchedig Ddr. D. Ben Rees yng nghyfarfod cyntaf Cymdeithas y Penrhyn am dymor 2017-18, yn festri Horeb, nos Fercher, yr 20fed o Fedi.

Cawsom anerchiad diddorol dros ben gan ddechrau drwy sôn am gefndir teuluol Cledwyn Hughes a'r dylanwadau cynnar arno. Bu tad Cledwyn, David Hughes, yn chwarelwr am gyfnod cyn mynd i'r weinidogaeth a bu'n weinidog yng Nghaergybi am flynyddoedd maith. Roedd y tad yn Rhyddfrydwr amlwg ac yn ffigwr dylanwadol iawn yn Sir Fôn. Ond er iddo gael ei fagu ar aelwyd Ryddfrydol trodd Cledwyn at y blaid Lafur a churo Megan Lloyd George i ddod yn Aelod Seneddol Môn yn etholiad 1951.

Disgrifiwyd gyrfa lwyddiannus Cledwyn Hughes fel gwleidydd a'i waith mewn swyddi o bwys yn y Cabinet, ac yna yn Nhŷ'r Arglwyddi. Daeth yn amlwg bod ganddo allu arbennig i ymwneud â phobl a bod ganddo gefnogaeth bersonol sylweddol.

Mae D. Ben Rees wedi ysgrifennu cofiant cynhwysfawr amdano ac wedi astudio'r holl dystiolaeth, yn cynnwys yr 81 o focsys o bapurau Cledwyn sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Teitl y gyfrol yw *Cofiant Cledwyn Hughes – Un o Wŷr Mawr Môn a Chymru* ac fe'i cyhoeddwyd gan y Lolfa.

**Urdd y Gwragedd**
Mae tymor newydd y gwragedd wedi ail ddechrau ym mis Medi gyda chymun bendigaid a siawns i ymaelodi dros baned o de. Ein gŵr gwadd am fis Hydref oedd Steve Keyworth – yn wreiddiol o Caint cyn dod i weithio yn ADAS Trawscoed



**Bore coffi MacMillan gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch, yn ddiweddar gan Elsie Morgan lle codwyd £365.**

ac ymgartrefu ym Mhenrhyn-coch. Mae ganddo fusnes ym mharc gwyddoniaeth Pen-glais, sef systemau amgylcheddol sydd yn defnyddio data lloeren i dyfu bwyd dros y byd. Dechreuodd ei sgwrs gan ofyn pam mae Steve yn dal i fynd i Peru a Chambodia? Wel yr ateb oedd i dyfu mwy o fwyd i bobl, mewn rhai ardaloedd sydd heb gael glaw ers degawdau. Dangosodd sleidiau fel rhan o'i waith ble roedd ffermydd yn tyfu llysiau o dan amodau anodd, ac eto maent i'w gweld yn ein harchfarchnadoedd yma yn Aberystwyth. Daeth a asparagus ac avocado ar blat i ni eu blasu ac yn dangos yr union fan ble roeddent wedi tyfu ar y sleid. Er bod Steve wedi symud i fyw i'r dref bellach mae'n dal yn aelod ffyddlon o Eglwys Sant Ioan. Noson ddiddorol iawn.

**Eglwys Salem Coedgruffydd**
Mae ymddiriedolwyr Eglwys Salem Coedgruffydd wedi penderfynu cau mynwent y capel. Mae'r ymddiriedolwyr yn gofyn i deuluoedd y rhai sydd wedi eu claddu yn y fynwent anfon eu manylion cyswllt atynt trwy law 10 Cae Mawr, Penrhyn-coch, Aberystwyth, SY23 3EJ (neu salem.coedgruffydd@gmail.com).

**Bedydd**
Dydd Sul, 17 Medi bedyddiwyd Cole Matthew Joseph Freeman yn Eglwys Sant Ioan – mab Harrison ac Elizabeth o Salem.

**Cwrdd Diolchgarwch**
Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch blynyddol, nos Fercher, 3 Hydref o dan arweiniad y Parchg Ddr Watcyn James, Capel Bangor yr organydd oedd Ceris Gruffudd. Cafwyd cynulleidfa deilwng a chyflwynwyd y casgliad i HAHAV– gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref. Diolch i Mairwen Jones am addurno y Capel. Bore Sul 8 Hydref cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch deuluaidd gyda'r gwasanaeth dan ofal aelodau Bethel Aberystwyth a Horeb. Diolch i bawb – yr organydd oedd Mair Evans a chafwyd eitem gan blant yr Ysgol Sul.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir â Delyth Ralphs a'r teulu, Garth Gwyn, ar farwolaeth mam Delyth – Marion Jones, Pen-bont Rhydybeddau.

**Ysbyty**
Dymunwn wellhad buan i Mike a Christine Swift, 6 Tan-y-Berth, y ddau wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Ymddiheuro**
Ymddiheuraf yn fawr i Ted Fenner am roi yn *Y Tincer* diwethaf, ei fod wedi bod yn yr ysbyty, ond doedd Ted ddim wedi bod yn yr ysbyty o gwbl. Dyna'r wybodaeth roeddwn wedi derbyn. Sori Ted. **Mairwen.**




Llongyfarchiadau i Gylch Meithrin Trefeurig dderbyniodd dystysgrif aur siarter iaith Ceredigion ar 12 Hydref. Yn y llun gwelir Emma Robinson a Jackie James o'r Cylch.

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**
Nos Iau, 14eg o Fedi, fe groesawyd pawb i gyfarfod cyntaf y tymor newydd gan Alwen Fanning a oedd yng ngofal y noson, ynghyd â Mair Jenkins. Fe longyfarchodd pawb oedd wedi bod yn llwyddiannus mewn sioeau dros yr haf ac yn arbennig i Glenys Morgan a Sharon Jones, oedd wedi bod yn llwyddiannus yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd.

Fe ddymunodd wellhad buan i'r rhai fu yn anhwylus. Trafodwyd y busnes arferol o fynd trwy yr ohebiaeth a ddaeth i law. Aeth ymlaen i groesawu ein gwraig wadd sef Brenda Jones, Bow Street. Thema y noson oedd 'Blasu'. Fel y tybiwch roedd Brenda wedi dod â siytnis, jams a sgons, oedd hi wedi eu gwneud i gyd, ac fe gafodd pawb eu blasu ynghyd â chaws i fynd gyda phopeth. Fe roddodd wybodaeth sut oedd yn mynd ati i baratoi'r cwbl wrth fynd ymlaen. Roedd ei ffrind Mair Davies wedi dod yn gwmni iddi, ac i roi help llaw, ac i gadw pawb yn hapus. Mae Brenda yn adnabyddus wrth iddi ennill gymaint o wobrau mewn sioeau am y 'Preserves' yma. Ac yna i roi pen ar y cwbl, 'jin eirin duon'. Roedd pawb wedi mwynhau. Diolchwyd yn swyddogol i Brenda gan Mairwen, ac yna fe dynnwyd y raffl a chael cwpanaid a sgwrs i ddiweddu'r noson. Dechrau gwych i'r flwyddyn!

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gydag Angharad Fychan a'r teulu, Glanrafon, a golli modryb yn Llanuwchllyn.

**Ennill Gwobr y Bobl**
Llongyfarchiadau i Rhun Emlyn, Dôl Helyg, ar ennill gwobr y bobl am werthu ei lyfr orau yn Stomp Lyfrau'r Morlan nos Wener 13 Hydref. Y llyfr oedd Huw L. Williams *Credoau'r Cymry* (Gwasg Prifysgol Cymru). Awdur fagwyd yn y Dolau!

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
*Tîm 1af*
16/09/2017 Penrhyn-coch 0 Airbus Brychtyn 3
20/09/2017 Caersws 2 Penrhyn-coch 5
23/09 Penrhyn-coch 2 Y Rhyl 2
30/09 Dinbych 2 Penrhyn-coch 0
07/10/2017 Cwpan Cymru
Garden Village 3 Penrhyn-coch 4

*Canlyniadau Menywod*
10/09 – Penrhyn-coch 3 Felin-fach 1
17/09 – Penrhyn-coch 7 Llanbed 0
24/09 – Cwpan Cynghrair Ceredigion – Felin-fach 0 Penrhyn-coch 3
08/10 – Cwpan Cymru – Bangor 4 Penrhyn-coch 2

# Noson wobrwyo CPD Penrhyncoch 2017





Aled Parry Evans - Chwaraewr a wnaeth mwyaf o gynnydd dan 16 - a oedd yn absennol ar y noson wobrwyo Cyflwynwyd gan Gadeirydd y Clwb Kevin Jenkins yn Nhwrnament Bow Street.







Menywod Penrhyncoch - Sgoriwr mwyaf - Cat Davies, Capten a Chwaraewraig y Rheolwr - Debbie Hamer, Chwaraewraig y Chwaraewyr - Lucie Gwilt,



Chwaraewraig a wnaeth y cynnydd gorau - Steph Lucas
Tim 1af - Capten - Owain James, Chwaraewr y Cefnogwyr - Leigh Jenkins

# GOGINAN

**Ymddiheuriadau**
Ymddiheuriadau i ohebydd Goginan - dylai peth o'r isod fod wedi ymddangos yn rhifyn Medi.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn ag Iris Richards, Brodawel, ar farwolaeth ei chyfnither Enid Mary Greaney yn Aberystwyth ym mis Gorffennaf. Hefyd i Mel Scarbrough, Bwthyn Pen-y-bont ar farwolaeth ei chwaer yn Nottingham yn ystod yr haf ac â Mike Ingram a'r teulu, Llygad y Glyn, ar farwolaeth chwaer Mike yng Nghartref Cwmcynfelin.

**Pen-blwydd Arbennig**
Hoffai Islwyn Jones, TirNaNog, ddiolch o galon i bawb a ddanfonodd gardiau, arian a galwadau ffôn ar ei ben blwydd yn 80. Mae Islwyn ar hyn o bryd wedi ymgartrefu yng Nghartref Tregerddan ac mae hefyd yn ddiolchgar iawn o'r gofal mae yn gael yno.

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Colin a June Baxter, Oakdale, ar ddathlu eu hanner can mlynedd o fywyd priodasol ar Fedi 23, hefyd cyfarchion hwyr i June ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ystod yr haf.

**Gwellhad Buan**
Hoffem ddymuno gwellhad buan i Arthur Williams, Penrhiwlas, sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd.

Hefyd braf yw gweld Valerie Evans, Gwarllan, o amgylch ar ôl iddi orfod treulio amser yn yr ysbyty,

**Capel Y Dyffryn**
Nos Wener 6ed o Hydref cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch am y cynhaeaf. Gwahoddwyd eleni Dr. Gwyn Davies, Penparcau, atom i bregethu. Croesawyd ef a'i briod Glenys ynghyd a nifer o ffrindiau o Eglwysi cyfagos gan Arwyn Roberts. Roedd y bregeth yn seiliedig ar adnodau yn yr wythfed bennod o Lyfr Genesis. Cyfamod Duw a Noa.

"Gosodaf fy mwa yn y cwmwl a bydd yn arwydd cyfamod rhyngof a'r ddaear"

Pan welwn y bwa (enfys) yn yr awyr- cofiwn am addewid Duw." Pregeth syml yn ein herio i feddwl a chofio. Yr oedd y Capel wedi ei addurno yn hardd iawn fel arfer drwy lygad a llaw grefftus Eirlys Davies. Diolch yn fawr iddi. Oedfa Fendithiol.

**Hanner Marathon Caerdydd**
Llongyfarchiadau i Rhys Bebb, Blaendyffryn gynt, ar redeg yr hanner marathon yng Nghaerdydd mewn llai na dwy awr. Roedd yn rhedeg gyda dau o'i gydweithwyt o 'IntaFilm' yn codi pres i Ysbyty Felindre oherwydd cafodd Simon ei ffrind driniaeth am y cancr ac roedd eisiau rhoi rhywbeth yn ôl am y gofal gafodd.



## Aduniad Côr Merched Ceulan

Ddechrau'r Gwanwyn penderfynodd Non Griffiths ac Elisabeth Wyn drefnu aduniad i aelodau'r Côr – gyda chymorth Mair Nutting. Daeth 38 o'r aelodau at ei gilydd yng Ngwesty'r Llew Du, Tal-y-bont ar Fedi'r 6ed, lle cafwyd gwledd ardderchog. Ffurfiwyd y côr gan Eleri Huws yn 1981, ac yn 1987 hyd at 2001 bu Eirwen Hughes yn gyfeilydd ac arweinydd y côr. Derbyniodd Eirwen anrheg o dlws arian ac ambr a basged o flodau oddi wrth yr aelodau. Braf iawn oedd cael cwmni ein gilydd ar ôl 16 o flynyddoedd a chael cyfle eto i ail fwynhau cydganu'r hen ganeuon.

Yn ystod y noson darllenwyd penillion gan Louisa Phillips – un ar gyfer y dathliad ac eraill yn dwyn atgofion am y blynyddoedd hapus bu'r côr gyda'i gilydd. Hefyd darllenwyd penillion Mrs Mairwen Jones ar gyfer yr aduniad.

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# Cymdeithas Trefnu Blodau




**Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r cylch yn cyflwyno siec o £1,500 i Uned Chemotherapy Ysbyty Bron-glais cyfanswm a wnaed o sioe ffasiwn yn diwedd. Yn y llun o'r chwith i'r dde mae Donald Morgan (Llywydd), Rhian Jones (Sister Ward Chemotherapy), a Pat Jones (Cadeirydd).**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o dymor newydd Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r cylch ar yr 19eg o Fedi yn Neuadd Llanfarian. Daeth tyrfa dda a chafwyd croeso cynnes gan Pat Jones, ein Cadeirydd. Diolchodd Pat i bawb wnaeth gyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at y Sioe Ffasiwn a gynhaliwyd yn y Marine ym mis Gorffennaf ac fe hysbysodd pawb ein bod wedi rhoi swm sylweddol o £1500 tuag at yr Uned Cemotherapi yn Ysbyty Bron-glais, achos teilwng iawn.

Cynhaliwyd munud o dawelwch ar gyfer un o aelodau gwreiddiol y Gymdeithas, Megan Davies, a fu farw yn yr wythnosau diwethaf ar ôl salwch byr ac fe estynnwyd ein cydymdeimlad at ei theulu. Cofiwyd am aelodau eraill o'r gymdeithas sydd yn anhwylus ac anfonwyd ein cofion cynnes atynt a'u teuluoedd.

Yn arddangos y mis yma oedd Janet Hughes o Wrecsam gyda'i theitl "Blodau am bleser". Yn ystod y noson fe wnaeth chwe trefniant gan ddefnyddio cynhwysyddion gwahanol gyda blodau lliwgar wedi eu trefnu mewn ffordd lle roedd hyd yn oed y blodau gwyn yn edrych yn wynach.

Trefniant modern triongl oedd ei threfniant cyntaf gan ddefnyddio Gladiolis gwyn, Rhosynnau Gwyn "Avalanche" ochr yn ochr gyda Chrysanths Gwyrdd Mawr. Trefniant hyfryd wedi ei rhoi at ei gilydd yn syml.

Yna ymlaen at drefniant mewn rhywbeth na fyddai neb wedi dyfalu, dau din bwyd mawr arlwyo wedi eu gorchuddio â mat bwrdd ac yn hwn fe wnaeth drefniant yn groes gan ddefnyddio dail mawr, Phormium a Bergenia gyda Rhosynnau Oren llachar a Gerberas Mawr Oren. Gyda hwn fe roddwyd un a wnaed o flaen llaw.

Ei thrydydd trefniant oedd un tal, uwch fâs glir gan ddefnyddio Gladioli gwyn i adlewyrchu taldra y fâs gyda rhosynnau gwyn ag "Agapanthus" glas dwfn i ehangu gwyn y rhosynnau a'r gladioli.

Arbrofiad oedd y pedwerydd, yn ei geiriau hi, gyda dau gylch ar wahanol onglau yn creu diddordeb. I'r rhain fe adiodd Gladioli melyn, Rhosynnau gwyn "Avalanche", Chrysanthemums Oren ac i ychwanegu gwead, Blodau Alstromea, Canol garw blodyn Echinechea a Broom yn llifo er mwyn cyferbynu a llyfnder y rhosynnau a llinellau y gladioli.

Yna trefniant Cyfandirol mewn bocs cynyrch gardd, gydag amrywiaeth o flodau, dail ac aeron, mewn lliwiau hyfryd yr Hydref, Blodau'r Haul Melyn, Dahlias Coch tywyll a lilac, Gladioli dau liw oren, Rhosynnau Oren ac eto trefniant wedi ei wneud ymlaen llaw i gydweddu.

Trwy hyn i gyd fe gafwyd sgwrs hawddgar ganddi am ei hanes a sut ddaeth i fod yn Ddangoswraig NAFAS, gan orffen drwy greu Trefniant Basged Arbennig ar raddfa fawr, yn llawn dail, Iorwg, Fern, Bergenia ac arall o'r ardd a blodau Asters, Rhosynnau, Antheriums, Germini, Alstromera, a Carnations i gyd mewn gwahanol donau o Pinc yn gorlifo o'i basged. Diolchwyd i Janet gan Glenys Morgan am y wledd o gynlluniau a'r dewis o flodau llachar, gyda pawb yn cytuno fod hwn yn ddechrau gwych i'r flwyddyn.

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 21ain o Fedi o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Andrea Jones. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth un cynghorydd.

Ar hyn o bryd dim ond 9 cynghorydd sydd ar Gyngor Cymuned Melindwr; os oes gan rhywun ddiddordeb a wnewch gysylltu efo'r clerc.

Adroddodd y clerc fod cyfrifon 2016/2017 wedi eu derbyn gan yr archwilwyr Grant Thornton a diolchwyd i'r Cynghorydd Jean Watson am ei gwaith yn paratoi y cyfrifon.

Roedd dau fater cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor;

- Penlanolau, Capel Bangor – Codi tŷ.
- Pencnwch Cwmrheidol – Estyniad.

Nid oedd dim gwrthwynebiad i'r cynlluniau.

Mae y Cyngor yn awyddus i gael gwell cysylltiad bandeang yn yr ardal ac wedi cysylltu â BT ynglŷn â'r mater yma.

**Datblygiad presennol o gartrefi newydd yn Pant y Crug, Capel Seion.** Mae y datblygwr wedi gofyn i Gyngor Cymuned Melindwr i awgrymu enw i'r stad newydd yma. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau a wnewch gysylltu efo Jean Watson, Cynghorydd Pant y Crug, y clerc neu aelod o'r Cyngor.

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# SYLWADAU PELLACH AR YR ENW BWSTRYD, AC AR RAI PETHAU ERAILL

**(Rhan Dau)**

Soniodd Vernon yn 'Esboniad ar darddiad yr enw Bow Street' ym mis Mai am yr enw a oedd ar yr hen ffordd at Langorwen, cyn y crëwyd ffordd newydd dros y rheilffordd, sef 'Cock and Hen Street', a hefyd yr heol fach oddi ar honno, megis 'Thread and Needle Street' (neu 'Thread Needle Street'). 'Roedd yr enwau hyn hefyd yn ymddangos yn rhan gyntaf ysgrif Vernon am ei sgwrs ag Emlyn Rees, Bodowen, yn rhifyn mis Chwefror *Y Tincer* eleni, ac ysgrifennodd Eddie Jones am y strydoedd hyn ym 1990 fel rhan o 'Adnabod Ardal 26'. Mae'n siŵr bod eu bodolaeth yn union ddrws nesaf i'r 'Bow Street' gwreiddiol, a'u henwau Saesneg, yn arwyddocaol wrth ystyried yr enw 'Bow Street' ei hun.




Cerdyn post o Ben-y-Garn o bell

Ystyriodd Eddie hefyd hanes y 'Black Lion' yn 'Adnabod Ardal 30', a'r posibiliad bod tafarn yn 'Bow Street' cyn yr un bresennol. Mae ei ymchwil yn awgrymu mai enw gwreiddiol y 'Black Lion' oedd y 'Cross Axes', ac mai'r tafarnwr ym 1841 oedd Leonard Jones, saer coed. Mae'n wir fod tafarn o'r enw y 'Cross Axes' yn 'Bow Street', gan fod cyfeiriad ati ym 1848 fel "a rude inn", a hefyd cofnod o'r "Bow-street Friendly Society" yn cwrdd yno ym 1837. Gall galwedigaeth Leonard y saer, wrth reswm, esbonio enw gyda bwyeill i'r tafarndy, ond erbyn 1868 fe'i hadnabuwyd fel y 'Black Lion', mwy na thebyg ar ôl Llew Gwaithfoed sydd ar arfbais teulu Pryse, a oedd yn ddisgynyddion iddo.

Nid oes tystiolaeth gadarn bod tafarn cyn yr adeiladwyd y Blac, ond mae cofnod o rywun ar daith trwy'r Sir ym 1819 ac, ar y ffordd tuag at Fachynlleth, yn galw yn "a little public house at Bow Street" ond heb ei enwi. 'Roedd yn dra diddorol felly, wrth ystyried y posibiliad o dafarn gynharach, bod Emlyn Rees wedi sôn am honiadau Charlie Bailey, Minyfron, bod tafarn ar un adeg o'r enw 'Bow Street Court', lle saif y tŷ Awel y Werydd heddiw, a dyna lle y cynhaliwyd y llys barn lleol. Yn sicr ei bod yn werth-ymchwilio i'r hanes hwn, gan nad ydwyf yn meddwl ei fod wedi'i gofnodi o'r blaen. Serch hynny, rhaid cofio gall 'court' gyfeirio at gasgliad o dai a adeiladwyd o amgylch 'courtyard', ac nid yw o reidrwydd yn golygu 'llys'.

Fel y nodais, mae Hywel Wyn Owen a Richard Morgan yn cysylltu enwau Llundain yn hen Sir Aberteifi â chreu

Pen-y-Garn



ffyrdd tyrpeg, enwau fel ‘Bow Street’, ‘Chancery’, ‘Temple Bar’ a ‘Piccadilly’. Mae’n wir i ddweud bod llys ynad yn ‘Bow Street’ Llundain (caewyd y llys olaf yno ond yn 2006), a ’roedd ‘Chancery’ yn fath o lys, ond mai porth bwaog oedd ‘Temple Bar’ nid llys (efallai bod rhyw ddryswch wedi digwydd yma ag ‘Inner Temple’ a ‘Middle Temple’, a oedd yn llety i fargyfreithwyr a lle oeddynt yn cael eu hyfforddi ac yn gweithio), a, hyd y gwyddys, nid oes llys yn ‘Piccadilly’ ychwaith (ffordd yw ‘Piccadilly’, ond, wrth reswm, mae ‘Piccadilly Circus’ hefyd, sef y gyffordd lle mae ‘Piccadilly’ yn cwrdd â ‘Regent Street’).

Mae’n bosibl bod y ffasiwn o fedyddio rhai lleoedd ag enwau Llundeinaidd wedi dod oherwydd bod pobl yn gweld y system o ffyrdd tyrpeg fel rhyw ddylanwad o’r ddinas, a’r llywodraeth yno, yn ymestyn dros y wlad, gyda’u hymddiriedolaethau a’u tollbyrth. Mae Iwan Wmffre yn awgrymu gan fod pedair ffordd yn cyfuno ger hen dollborth deheuol Aberystwyth, efallai fod pobl yn cyffelybu’r lle â ffordd brysur fel ‘Piccadilly’ yn Llundain. Mae’n ddiddorol, felly, i weld bod y ffordd yn ‘Bow Street’ yn gwyro ychydig rhwng y ‘Black Lion’ a Nantyfallen, hwyrach yn ddigon tebyg i fwa, yr union siâp sydd y tu ôl i darddiad yr enw ‘Bow Street’ yn Llundain!

Yn sicr, er bod yr enw ‘Bow Street’ ond yn cyfeirio at y bythynnod ar waelod y pentref presennol yn wreiddiol, wrth i dai gael eu hadeiladu ar hyd y ffordd at Nantyfallen, ac wedyn i fyny’r rhiw, ymestynnodd yr enw i’w cynnwys. Ond am flynyddoedd wedyn ’roedd Pen-y-garn a Rhydypennau yn cael eu gweld fel lleoedd ar wahân. Yn wir, yng nghofnodion cyfrifiad 1851 disgrifiwyd y tri lle fel pentrefi, ac mewn ysgrif gan ‘John Tomas’ yn y cylchgrawn *Cymru* ym 1898, yn enwedig am ‘Pen y Garn’, dywedodd “Enw ar bentref a chapel” ydoedd.

Pan luniwyd ‘Casgliad o enwau lleoedd Cymreig &c yn mhlwyf Llanfihangel-geneu’r-glyn’ i Eisteddfod gadeiriol Aberystwyth ym 1903, nododd yr awdur, ‘Ioan’, bod ‘Penygarn’ yn “enw ar bentref heb fod yn nepell o’r Bowstreet”, ac wrth iddo gyhoeddi erthygl am ‘Llanfihangel Geneu’r Glyn’ ym 1912, eto yn *Cymru*, siaradodd Ben Morus am fynd “trwy bentrefi bychain Pen y Garn a Llanfihangel”. ’Roedd Tom Macdonald, a oedd yn byw yn yr ardal, hefyd yn sôn am ‘Bow Street’ a Phen-y-garn fel pentrefi, yr un yn bentref nesaf i’r llall. Ym 1900 adroddodd y *Cambrian News* bod tyfiant wedi bod ym Mhen-y-garn




Cofeb Ryfel Capel y Garn

dros yr ugain mlynedd blaenorol, tra bod tri neu bedwar tŷ yn cael eu hadeiladu ar y pryd, a bod y ‘pentref’ yn “conveniently situated” rhwng Aberystwyth a’r Borth.

Pan aeth y cymunedau lleol ati i godi arian tuag at gofebion y Rhyfel Mawr cyhoeddodd y pwyllgor ei adroddiad ym 1921 ar gyfer “Ardal Llanfihangel, Penygarn a Bow Street”, a godwyd tair tabled bres, neu ‘Cof-lechau’: un yn Eglwys Llanfihangel, un yng Nghapel Penygarn (sef Capel y Garn) ac un yng Nghapel Bow Street (sef Capel Noddfa). Ond, yn raddol bach, adeiladwyd tai mawrion rhwng ‘Bow Street’ a Phen-y-garn, fel ‘Hafan’, hen gartref T. Gwynn Jones, a daeth y tri lle i’w gweld mwy fel un. Er hynny, adroddodd Iwan Wmffre yn ei waith bod rhai trigolion Pen-y-garn a Rhydypennau, hyd at heddiw, yn ddig bod enwau eu pentrefannau yn diflannu dan enw eu cymydog bentref.

Er hynny i gyd, mae un peth yn sicr, mae’r enwau Pen-y-garn a Rhydypennau yn enwau Cymraeg eu hiaith gyda’u gwreiddiau yn ddwfn yn hanes gogledd Ceredigion. ’Roedd Tom Macdonald yn disgrifio’r enw ‘Bow Street’ yn fastard enw, ac yn pendroni sut oedd enw mor od wedi cael ei orfodi ar bentref Cymreig. Mewn erthygl a ysgrifennodd ym 1975 i’r *Western Mail,* dywedodd fod rhai hen bobl wedi mynnu mai ‘Nant-y-fallen’ neu ‘Rhydafallen’ oedd yr enw gwreiddiol ar un adeg. Tra yn ei lyfr *Crwydro Ceredigion* o 1952 ysgrifennodd T. I. Ellis, wrth drafod yr enw ‘Bow Street’ ac yn nodi mai hwnnw oedd yr enw ar y ‘stesion’, mai “Nantafallen neu Nantyfallen yw hen enw’r pentref”.

Ym 1972 dywedodd ‘Will O’ Whispers’ hefyd fod Nantafallen wedi ei gynnig fel fersiwn Cymraeg o ‘Bow Street’, ond, hyd yn oed bod Bwstryd wedi’i ddefnyddio yn ddiweddar mewn ysgrifau Cymraeg eu hiaith, nad oes ffurf swyddogol eto yn y Gymraeg am y pentref. Efallai na fydd modd darganfod gwir darddiad yr enw, ai William Jones neu rywun arall oedd y tu ôl i’r enwi, ond, siŵr o fod, mae’r enw ‘Bow Street’ yma i aros fel enw rhyfedd yn y Fro Gymraeg i godi penbleth ar ei drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd!

Parthed cwestiwn Vernon pam bod tir sylweddol ym mhlwyf Llanfihangel Genau’r-glyn ym meddiant Ystâd Trawsgoed, yn ogystal ag Ystâd Gogerddan, y rheswm syml ydyw y prynodd teulu Vaughan y tir hwn, megis hen dir Abaty Ystrad Fflur, ar ôl Diddymiad y Mynachlogydd. Tir-y-mynach oedd y tir dan sylw, neu Dywarchen Benweddig yn ôl yr haneswyr. Mae’n bwysig nodi nad y ffiniau sydd gan y Gymuned bresennol o’r un enw oedd gan Dir-y-mynach Ystrad Fflur, ond y tebygrwydd yw eu bod yn cyd-ffinio â rhai yr hen drefgordd blwyfol Tir-y-mynach. Er hynny, ym 1630 prynodd John Vaughan o Drawsgoed wyth ‘grange’ (sef maenor neu ystâd) Abaty Ystrad Fflur, gan gynnwys y Dywarchen, am £4,300. Felly mae’n ymddangos yn debyg bod yr hanes am ysweiniaid Ystadau Trawsgoed a Gogerddan yn gamblo mewn clwb yn Llundain, efallai mewn ras chwilod, yn ddim ond yn stori ddychmygol.

Sylwais fod Vernon wedi sôn am ‘afon Ceiro’, fel yr enw Cymraeg ar ‘Bow Street Brook’. Y peth yw, gan fod pob afon yn llifo o’i tharddle i’w haber, mae Nant Ceiro yn rhedeg trwy Landre ond hyd at Aberceiro, ger Llety Ceiro, lle mae’r afonig hon yn llifo i afon arall. Yn ôl Richard James Thomas, a’i lyfr pwysig *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru*, a gyhoeddwyd ym 1938, enw’r afon honno oedd Cyffin yn y Gymraeg. Fe’i disgrifir fel “Nant fechan yn codi ychydig i’r gorllewin o’r Bont Goch”, ac yn nodi ei bod yn rhedeg heibio Melin Gyffin a Rhydypennau ymlaen i Afon Clarach.

Y tebygrwydd yw, yn ôl Iwan Wmffre, mai dynodi’r ffin orllewinol a gogleddol tir Ystrad Fflur oedd yr afon, megis Tir-y-mynach neu’r Dywarchen, a dyna’r rheswm am yr enw gan fod ‘cyffin’ yn golygu ‘ffin, goror neu derfyn’. O ganlyniad mae’r enw ‘Maes Ceiro’, sef yr ystâd fechan o dai wrth ymyl Capel y Garn, yn gamenw ac yn cael ei henwi ar yr un camddealltwriaeth mai’r Ceiro oedd




Ai Maes Cyffin ddylai yr enw fod?




Nant Ceiro yn Llandre

ar waelod y cae lle y'i hadeiladwyd; felly hwyrach dylai 'Maes Ceiro' fod yn cael ei henwi yn 'Maes Cyffin'!

Eto, mae cofnod o 1849 mewn gweithred sy'n rhoi'r enw 'Rhuel' i ran isaf Afon Cyffin, rhwng Nant (yr) Afallen a'r hen ffordd at Langorwen, tra mewn erthygl a ymddangosodd yn y *Cambrian News* ym 1949, sy'n cofnodi sgwrs rhwng Tom Macdonald a Dewi Morgan, mae cyfeiriad at y Gyffin fel "afon Rhydypennau" wrth i fab 'Y Tincer Tlawd' gofio ei blentyndod. Mae'r ddau enw hyn yn ddigon rhesymol fel rhai disgrifiadol o'r afon, gan ystyried ei bod yn rhedeg trwy Rydypennau a heibio ffermydd Ruel.

Nid rhywbeth newydd, felly, ydyw'r dryswch dros enw Cymraeg ar 'Bow Street Brook'. Ym 1981 ysgrifenodd M. Euronwy James yn *Y Tincer* am Gapel Horeb, lle mae'n cyfeirio at fedyddio dwy ferch o'r enwau Marged a Catherine "yn afon Gyffin, ger Melin Ruel", er bod David Jenkins yn *Bro Dafydd ap Gwilym* yn sôn am yr un digwyddiad o fedyddio Margaret Simon a Catherine Williams "yn Afon Nantafallen ger y Felin." Hyd yn oed yn Saesneg nid yw enw'r afon yn gyson, yn wir yn y rhestr sy'n cydfynd â map y rheilffordd arfaethedig o 1861 mae dau gyfeiriad ati, un i'r rhan uchaf, ond yn islaw i Rydypennau, fel "River Rhydypene", ac un arall i'r darn gwaelod y tu ôl i'r Blac fel "River Clarach"!

Dylwn ddweud hefyd yn ôl yr hynafiaethydd Edward Lhuyd, a oedd â chsylltiadau teuluol â Glanfrêd, 'ynghayro' [yng Ngheiro] oedd llys Peredur Beiswyrdd, Arglwydd Uwch Ceredigion. 'Roedd yr ysgolhaig Egerton Phillimore yn ei gysylltu ef â Peredur Penweddig, tad y gwron chwedlonol Môr Mawrhydig. Yn yr 16eg ganrif soniodd Gruffudd Hiraethog am adeiladu'r llys a'i leoliad ar lan nant "a elwid Keiro", ond "yno i gwnaethbyd eglwys Mihangel o Gastell Gwalltr", sef Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn, ar ôl i lais gorfodi Peredur i atal y seiri rhag eu gwaith ar ei lys. Mae'r traddodiad hwn, felly, yn hynach na'r un tebyg a gofnodwyd gan Jonathan Ceredig Davies yn ei lyfr *Folk-lore of West and Mid-Wales* ym 1911, ac yn llyfr Daniel Thomas, *Dail yr Hydref*, ym 1916, lle maent yn sôn am lais yn rhybuddio rhag peidio ag adeiladu'r Eglwys ar safle Glanfrêd Fawr.




Ysgrifennodd Cledwyn Fychan am Afon Cyffin a Nant Ceiro mewn erthygl yn dwyn y teitl 'Nabod Ardal: Rhywle i Fynd', yn rhifyn mis Chwefror 1987 *Y Tincer*, lle mae hefyd yn sôn am rai o'r pethau a nodwyd uchod. Tra yn rhifyn y mis canlynol ymddangosodd llythyr gan Irfon Williams, a oedd yn tynnu sylw at Tom Macdonald yn rhoi sawl enw disgrifiadol i wahanol rannau o Afon Cyffin yn *The White Lanes of Summer.* Yn ei hunangofiant, felly, mae ef yn enwi'r rhannau yn ôl y lleoedd y bu'n llifo trwyddynt, fel "Afon Felin", heibio Melin Gyffin, "Afon Rhypenne", o dan Bont Rhydypennau, "Afon Baker", ger Cae Baker, "Afon Rhypenne bach", trwy gaeau a berchnogwyd gan Rydypennau Bach, "Afon Cottage", trwy gae'r 'Cottage', "Afon Caerwen", trwy gae Gaerwen, "Afon Ruel", trwy dir yn perthyn i Ruel, ac wedyn yn amgylchu Melin Ruel fel "Afon Felin" eto!

Mae'n ddiddorol eto hefyd bod yr hanesydd Syr John Edward Lloyd, mewn ysgrif am 'Tir-y-mynech' yn y llyfr *Y Llinyn Arian: I Gyfarch Urdd Gobaith Cymru* o 1947, a ailgyhoeddwyd yn *Y Tincer* ym mis Ionawr 1998, lle oedd yn trafod y Dywarchen neu Dir-y-myneich, yn cyfeirio at "afon Elgar ac Eleri (o Elerch) yn derfyn ar y gogledd" o dir Ystrad Fflur, fel bod Afon Elgar yn enw ar Afon Cyffin, er bod R. J. Thomas wedi cyhoeddi ei lyfr rai blynyddoedd yn gynt. Ni wn ar ba sail oedd J. E. Lloyd yn enwi'r afon, heb law am y ffaith ei bod yn llifo heibio'r tŷ a elwid Elgar. Mae Iwan Wmffre yn nodi'r tai Elgar (Elgar Hên/Hên Elgar) ac Elgar-fach, a'r ffaith gall y gair ddod o enw personol efallai, ond nid yw'n ei gofnodi fel enw afon.

Beth bynnag, i gloi hoffwn sôn am yn y siarter gan Edward I, lle mae'n rhoi tir i Roger Mortimer ym 1284, a'r ffiniau a ddisgrifiwyd ynddi. Felly wrth eu hystyried mae'n bwysig i nodi mai ffiniau Arglwyddiaeth Geneu'r Glyn oeddynt, sef rhan o'r hen gwmwd o'r un enw, gan eithrio rhan o'r tir hwnnw i aros gyda'r Goron ac i'w adnabod pellach fel 'Cyfoeth-y-Brenin'. 'Roedd mab Roger Mortimer, sef Llewelyn, yn rhyddhau Geneu'r Glyn i Geoffrey Clement, neu Sieffre Felyn, am £40 ac am dir yng Nghoedmor. Arhosodd yr Arglwyddiaeth gyda theulu Clement am sawl cenhedlaeth, nes y 15fed ganrif pan briododd Matilda Clement â John Wogan o Gas-Wis, Sir Benfro, ac felly aeth Maenor Geneu'r Glyn i'r teulu hwnnw.

Ym 1568 prynodd John Pryse, Gogerddan, hawliau'r Arglwyddiaeth oddi wrth deulu Wogan. Erbyn hynny, wrth gwrs, 'roedd tir Maenor Geneu'r Glyn wedi'i werthu a thra bod rhan sylweddol o'r tir hwnnw yn nwylo teulu Pryse, lle mae 'Bow Street' yn y cwestiwn, ond y tir lle adeiladir y 'Black Lion' a'r tai gyferbyn oedd yn rhan o Ystâd Gogerddan. Yn wir, 'roedd y rhan fwyaf o'r 'Bow Street' i'w ddod ar dir Brysgaga, felly hwyrach bod rhyw gnewyllyn o wirionedd y tu ôl i'r hen straeon am 'Mr Jones' a'r enwi wedi'r cyfan? Yn diweddarach wrth gwrs, ym 1851, gwerthwyd Brysgaga a'i thir gan William Jones Watkin i Ystâd Gogerddan, ac felly 'roedd Tom Macdonald yn iawn honni ar un adeg mai Gogerddan oedd yn berchen ar 'Bow Street' yn holl "gorff ac enaid".

**Martin Robson Riley**

Diolch i Martin am yr erthygl ddwy ran hon. Daw Martin, sydd yn byw yn Llandre, o Fyrmingham yn wreiddiol; mae wedi dysgu Cymraeg ac yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol

## Y BORTH

**Ymwelwyr peryg!**


Golchwyd llawer o lympiau gwyn caled i'r lan ar draeth Ynys-las yn ddiweddar. Cawsant eu darganfod ar y graean ar hyd y traeth, yn union o flaen pentref Ynys-las. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu clirio o'r traeth ac wedi cymryd samplau a anfonwyd i'r labordy. Cadarnhaodd y canlyniadau mai olew synthetig wedi caledu yn gysylltiedig â phrosesau diwydiannol, tebyg i gwyr paraffin yw'r lympiau hyn. Os gwelwch fwy ohonynt rhowch wybod i Cyfoeth Naturiol Cymru trwy ffonio eu llinell ddigwyddiadau 24 awr ar 03000 65 3000. Maent yn cynghori ymwelwyr i beidio â'u codi, na'u cyffwrdd. Gofalwch hefyd fod cŵn yn cael eu cadw dan reolaeth ac nad ydynt yn eu cyffwrdd na'u bwyta. Os yw eich ci yn bwyta'r deunydd hwn, dylech fynd ag ef at filfeddyg ar unwaith.

Ymwelwyr arall wnaeth ymddangosiad ar y traeth yn ddiweddar yw Chwysigod môr (pysgod jeli Portugese man-of-war). Maent yn perthyn i bysgod jeli ac mae nhw'n cael eu golchi i fyny ar nifer o draethau De a Gorllewin Cymru. Edrychwch yn unig a peidiwch cyffwrdd y tentaclau gan eu bod nhw'n medru rhoi pigiad poenus a pheryglus. Fel arfer mae'n bosib dod o hyd i'r chwysigiaid yng Nghefnfor yr Iwerydd ac ardaloedd mwy deheuol.





# Adolygiad




Heiddwen Tomos
*Dŵr yn yr afon*.
Gwasg Gomer 218t £7.99

Dyma gorwynt o nofel sy'n sicr o gynnal eich diddordeb yn ystod y darllen, a chyfrol sy'n siŵr o ddryllio'r ddelwedd draddodiadol o'r cefn gwlad tawel, traddodiadol, yn rhacs. Dyma nofel gyntaf Heiddwen Tomos, awdur a fagwyd yn y gymdeithas wledig, amaethyddol yng Ngheredigion, ac mae geirfa a thafodiaith ei milltir sgwâr yn rhan annatod a phwysig o'r cyfanwaith. Mae'r iaith mewn sawl man yn gwrs ac yn aflednais ond mae hynny'n cyferbynnu'n llwyr â'r darnau telynegol a disgrifiadol tlws.

Derbyniodd y nofel ganmoliaeth gan feirniaid Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016, gyda Fflur Dafydd, Jon Gower a Gareth F. Williams wedi eu plesio'n fawr gyda'r cynnwys, ac mae'n dda iawn gweld bod yr awdur wedi dyfalbarhau i gyhoeddi'r nofel hon.

Mae'r stori, fel y soniwyd, wedi ei gwreiddio'n ddwfn yng nghefn gwlad Cymru, ac mae arferion y bywyd gwledig yn rhan annatod o'r cyfan, gydag arferion traddodiadol a'r bywyd modern yn cymysgu gyda'i gilydd, yn naturiol ddigon. Yn y bôn, hanes fferm deuluol sydd yma, Bryn y Meillion, a pherthynas tad a mab wrth iddynt ymladd (yn llythrennol weithiau!) i gadw deupen llinyn y busnes ynghyd. Ond mae llawer mwy i'r stori yma hefyd. Mae Rhys, y mab, yn gymeriad byrbwyll ac mae ei weithredoedd yn creu tyndra rhyngddo ef a phawb sy'n ei adnabod, ac yn enwedig Morgan ei dad. Mae ef yn gymeriad mwy gwastad, ond mae'n cario baich y gorffennol yn drwm ar ei ysgwyddau ac yn ei gweld hi'n anodd ymdopi â'r hyn y mae'n ei weld ac yn ei deimlo.

Mae Morgan a Rhys yn cael bywyd yn anodd ac yn unig iawn. Er bod digon o gymdogion o'u cwmpas, mae digwyddiadau'r gorffennol wedi sicrhau eu bod yn byw ar wahân i'r gymdeithas leol i raddau helaeth. Mae bywydau'r ddau wedi eu llunio gan eu gorffennol trist, ac yna mae eu hamgylchiadau'n newid yn llwyr eto pan ddaw Rhys adre'n annisgwyl gyda'i wraig newydd. Ond er y newid enfawr yma, mae rhai pethau'n gorfod aros am nad oes modd cael eu gwared.

Er taw'r ddau ddyn yw'r prif gymeriadau, mae'r menywod yn chwarae rhan bwysig iawn yn y stori hefyd, ac mae cyfraniad Rosa i'r nofel yn hollbwysig wrth iddi ddatgelu'r hanes llawn i ni'n raddol drwy gyfrwng ei dyddiaduron a'i hatgofion. A hi sy'n esbonio arwyddocâd teitl y nofel i ni. Mewn ffordd, mae'r dynion yn osgoi trafod y materion sydd wedi dylanwadu gymaint arnynt; mae'n haws peidio, efallai, ond mae angen i ni wybod y gwir er mwyn ceisio deall yr hyn sy'n digwydd yn eu presennol nhw.

Mae'n stori dywyll iawn ac yn gignoeth o onest ar brydiau hefyd. Ond dydy hynny ddim yn llethu'r darllen ac mae'r cymeriadau ymylol yn ysgafnhau tipyn ar y darllen. Mae helyntion amaethyddol a charwriaethol Ned y gwas, a busnesa Sioni Shw'od, yn ychwanegu cryn dipyn o hiwmor at y stori.

Mae'r llon a'r lleddf yn cydredeg fel mewn bywyd go iawn, ond yr elfennau tywyll sy'n cario'r dydd, a cheir ymdriniaeth â materion megis unigrwydd, twyllo a chynllwynio, trais yn y cartref, godinebu a marwolaeth yn y stori drasig hon.

Efallai nad yw caledi a chymhlethdodau bywyd cefn gwlad yn bynciau hollol newydd, ond mae Heiddwen Tomos yn bendant yn awdur sy'n cynnig rhywbeth gwahanol. A hithau'n cipio'r Fedal Ddrama yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn eleni, mae'r llenores hon wedi dechrau o ddifrif ar ei thaith lenyddol.

**Hefin Jones**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

# BOW STREET

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Llinos ac Andrew Edwards, Cemaes, ar enedigaeth merch fach ar 2 Hydref – chwaer i Elis a wyres i Vaughan a Maretta Griffiths, Bryn Castell.

**Croeso**
Croeso i Eileen Hoare a'i merch Amanda sydd newydd symud o Bonterwyd i Caerfelin. Mae Amanda yn un o wirfoddolwyr y Llyfrgell Genedlaethol.

**Dathlu**
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Shirley Hinge, Tregerddan, ac i Mr Elfed Davies, Comins-coch, ar ddathlu pen blwyddi arbennig yn ddiweddar; un yn 60 a`r llall yn 80.

ac i Mrs Jane Davies, Maes Ceiro ar ddathlu ei phen blwydd yn ddiweddar a phob dymuniad da am wellhad buan hefyd.

**Teuluol**
Llongyfarchiadau mawr i Arwel a Lila George, Llys Hedd, ar enedigaeth ŵyr yn Ffrainc; mab –Siôn Ifan Labodinière ar Hydref 4 – i Mererid a Jean-Gabriel (Gaby) a brawd bach i Nolan Rhys.



Y Parchedig Peter Jones yn agor Te Moethus blynyddol Cyfeillion Cartref Tregerddan ar Fedi'r 16eg.



Llongyfarchiadau eto i Carwyn Lloyd Jones ar ennill gwobr #IBuiltThis2017 yn sioe yr adeiladwyr FIS (Finishes and Interiors Sector) yn yr NEC ym Mirmingham ddechrau'r mis. A'r wobr - aros yn ngwesty St Pancras Llundain.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Cyngor wedi'r toriad dros yr haf ar nos Iau 28 Medi yn Neuadd Rhydypennau gyda'r Cynghorydd Rowland Rees yn llywyddu. Llongyfarchwyd y Gynghorwraig Meinir ar ddod yn Mrs Chambers yn ddiweddar, a dymunwyd adferiad buan i Pat, gwraig y Cyng. Dewi Evans. Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn nifer o arwyddion "Dim Cŵn" i'w gosod mewn lleoedd priodol, a mynegodd nifer o'r cynghorwyr ofid bod problem baw cŵn yn gwaethygu yn lle gwella yn y pentref, a deallir nad oedd Warden Cŵn i'w gael bellach, ac nad yw'r Heddlu yn frwdfrydig iawn i erlyn chwaith. Does dim wedi ei wneud gan BT i atgyweirio y llinell ffôn ger tro Cae Dip ar y ffordd rhwng y Lôn Groes a Phen-cwm. Llinell yw hon sy'n arwain i'r gronfa dŵr ar yr Hengaer. Adroddodd hefyd bod y meinciau wedi eu gosod erbyn hyn mewn nifer o fannau yn y pentref, a diolchwyd i Mr John Henry Jones am waith trefnus yn eu gosod. Penderfynwyd atgyweirio dwy o'r hen feinciau yn fuan.

Materion gan y Cynghorydd Paul Hinge, ein Cynghorydd Sir. Dywedodd nad oedd hyd eto wedi cael rhwyddineb i gael cyfarfod gyda'r Cwmni sy'n rhedeg yr Amlosgfa, ond mae'n gwasgu ar yr Adran Ffyrdd i wneud y ffordd yn llai peryglus o gwmpas yr Amlosgfa. Disgwyl ateb o'r asiantau priodol parthed cael cysgodfa aros bysiau ger Caerfelin, ac mae swyddog wedi bod yn edrych ar bosibilrwydd cael agor hen lwybr o Dregerddan i Goed Gogerddan.

Adroddodd fod plant yn ystod y gwyliau wedi bod yn gofyn am gael pyst gôl ar gae chwarae Tregerddan (Cae Col). Penderfynodd y Cyngor edrych i mewn i'r mater, efallai bod rhai sbâr gyda Clwb y Piod, a'r Cynghorydd i ofyn i'r plant beth yw maint y goliau y dymunent gael. Dywedodd ymhellach bod dŵr wedi gorlifo ym Mlaen-ddol ac ar bont Llangorwen yn ystod y glawogydd trymion, ond gobeithio bod y problemau yno yn cael eu datrys yn awr. Mae'r traeth gogleddol yn Clarach yn symud! ac mae'r Cynghorydd eisoes wedi cysylltu ag Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau. Coed wedi cwympo ar ffordd i fyny at Hairpin Bend Clarach, ac fel arfer bu'n anodd cael hyd i berchnogion y tir. Dangosodd y Cynghorydd gynlluniau o'r Orsaf arfaethedig yn Bow Street gan egluro rhai o'r pwyntiau sy'n codi o'r prosiect.

Materion cynllunio: Ni fynegodd y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r canlynol – codi garej ar safle ger 16 Maesafallen, estyniad ar gyfer storio a dosbarthu yn Iard Garn House, cadw garej yn Sunnydale, Llangorwen, a mynedfa newydd i Morawel, Clarach.

Penderfynwyd cyfrannu £300 tuag at Noson Tân Gwyllt o dan nawdd Clwb Pêl-droed Bow Street.

Archwiliad Allan Cyfrifon y Cyngor. Deallir bod cyfrifon dwy flynedd a aeth i'w gwirio i gwmni ym Mryste wedi mynd ar goll, a bydd gofyn i'r Clerc a'r Cadeirydd fynd â'r holl ddogfennau, (sy'n ateb 16 o bwyntiau), i gyfarfod â'r Archwilwyr yn Abertawe ar 23 Hydref.

Gobeithio y bydd golau ar bethau erbyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar nos Iau 26 Hydref.

## DOL-Y-BONT

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau mawr i Lisa-Marie Morgans a Marc Lewis, Cysgod y Gwynt ar ei dyweddiad.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus iawn a phob dymuniad da i Gwesyn Evans, Pantydwn, a fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 90 oed ar 29ain o Hydref.

**Profedigaeth**
Ddechrau'r mis bu farw Mrs. Joy Evans, Tynsimdde, ar ôl salwch blin a dim ond 8 wythnos ar ôl iddi gladdu Ken ei gŵr. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Llandre ar 12fed Hydref. Cydymdeimlir â theulu Joy yn eu colled.


## CYSTADLEUAETH!

**CYFLE I ENNILL CD NEWYDD**
**Y Welsh Whisperer!**




Am gyfle i ennill copi o'r CD newydd sbon gan y 'Mansel Davies Man' ei hun
'Dyn y Diesel Coch'
atebwch y cwestiwn anodd yma;
**Pa liw ydy diesel coch?**

Atebion at welshwhisperer@live.com
neu: (Swyddfa'r Gogledd)
4 Pantglas,
Bethesda, Bangor,
Gwynedd, Cymru, LL57 3BG
(Cofiwch gynnwys eich cyfeiriad a'ch papur bro).

**www.welshwhisperer.cymru**


# Deg Hoff Englyn

**Gwahoddiad caredig yw hwn: gwahoddiad i holl garedigion y pethe, ac yn arbennig i'r cannoedd lawer sy'n mawr werthfawrogi traddodiad barddol cyfoethog Cymru.**

O blith mesurau cerdd dafod, yr englyn, bid siŵr, yw un o'r rhai mwyaf poblogaidd. A dyna amcan y nodyn hwn: **estyn gwahoddiad diffuant ichwi anfon ataf destun eich hoff ddeg englyn**. Nid cystadleuaeth ydyw, ond cyfle i bawb fod â rhan mewn gweithgarwch fydd yn adlewyrchu'r diddordeb rhyfeddol sydd gan gymaint ohonom yn y chwarel ddihysbydd hon o englynion, ar gof a chadw gennym fel cenedl o'r nawfed ganrif hyd heddiw. Bydd croeso arbennig i englynion lleol, llai cyfarwydd, o bosibl, ond rhai ag iddynt apêl bersonol i chwi.

Yn ogystal ag ennyn diddordeb pellach yn hoff englynion y Cymry, y gobaith yw codi **swm sylweddol o arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, Awst 2018** (gw. isod). Cyhoeddir y deg englyn a ddaeth i'r brig, a detholiad o'r gweddill, ynghyd ag enwau pawb a gyfrannodd.

*Rhai cyfarwyddiadau pellach:*

1. Anfoner testun teipiedig o'r englynion **ar bapur A4**.
2. Os yn bosibl, anfoner copi o'r englynion hefyd ar ffurf **atodiad drwy ebost.**
3. Gyda'r englynion gofynnir yn garedig ichwi anfon **rhodd o £25** (neu fwy, os dymunwch). Y siec yn daladwy i: **Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd**.
4. Dylid nodi enw awdur pob englyn, os yw'n wybyddus. Yn arbennig gydag awduron llai cyfarwydd, gorau oll os gellir hefyd ychwanegu yn gryno unrhyw wybodaeth bellach, megis ardal yr awdur a blwyddyn geni / marw.
5. Gellir cynnwys unrhyw un o ffurfiau'r englyn, nid yr englyn unodl union mwyaf cyfarwydd yn unig.
6. Os yw englyn yn rhan o gyfres, da fyddai nodi hynny.
7. Gorau oll os gellwch restru'r englynion yn nhrefn blaenoriaeth. Ond nid yw hynny'n orfodol. Gellwch hefyd, er enghraifft, eu dosbarthu fel hyn: 1-3: hoff englynion; 4-6: ail ddosbarth o hoff englynion; 7-10: trydydd dosbarth o hoff englynion.
8. Gyda'r casgliad o englynion dylid nodi eich **enw, cyfeiriad (yn cynnwys cyfeirnod post), rhif ffôn, a chyfeiriad e-bost.**
9. Y dyddiad cau yw **1 Ebrill 2018**, ond gorau po gyntaf i anfon ataf: **Cwm Eithin, 37 Heol Sant Mihangel, Llandaf, Caerdydd, CF5 2AL. Tel. 029 2056 6249. rgwyndaf@sky.com**

Byddai'n hyfrydwch arbennig i mi pe bai ugeiniau lawer ohonoch yn mynd ati mor fuan â phosibl i ddewis eich hoff englynion. Yr un modd, i annog eraill drwy ddangos y gwahoddiad hwn i unigolion, cymdeithasau, dosbarthiadau cerdd dafod, ac ati. **Canmil diolch am eich cefnogaeth a phob dymuniad da.**
3. ix. 2017

**Robin Gwyndaf**

## MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog 2.00**
*Hydref*
22 Adrian P. Williams
29 10.00 Oedfa'r ofalaeth – Rehoboth, Taliesin

*Tachwedd*
5 John Roberts
12 John Tudno Williams
19
26 Terry Edwards

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Margaret ac Alwyn Hughes, Gellinebwen, a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth mam Margaret, sef Mrs Catherine Jones o Fachynlleth.

**Ar y Radio a Chroeso**
Bu Erwyd Howells yn sgwrsio ar raglen Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn ddiweddar. Braf yw croesawu ei fab, Gethin, yn ôl i'r ardal, gyda'i wraig Jemma a'r bechgyn Edi a Dylan. Gobeithio y byddant yn setlo'n dda ym Mhengwmryn.

**Pen blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Wendy Evans, Y Fronfraith, ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Jessica (nee Binks) a Ieuan Evans, Wrecsam, ar enedigaeth Ela Grug Evans ar Fedi 23ain.

# LLANDRE

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Rhiannon a Craig Edwards, Bugeildy, Lôn Glanfred, ar enedigaeth bachgen bach – Dylan Huw Stephen Edwards – ar 18 Medi..

**Newid aelwyd**
Dymuniadau gorau i Tom a Beryl Hughes, Pantyperran sydd newydd symud i Dolhuan, Llandre a Carwen a Chris Jones a'u plant Lois a Tomos sydd wedi symud o Dyffryn Cain i hen gartref Carwen yn Pantyperran, Llandre. Pob lwc i'r ddau deulu.

**Gwellhad buan**
Gwellhad buan i Tom Hughes, Dolhuan, sydd yn ysbyty Bron-glais ar ol damwain ar y fferm.

**Croeso**
Croeso i Sion a Lowri sydd newydd symud i Richmond, Lôn Glanfred.

**Teyrnged i Megan Davies, Tanyreithin, draddodwyd yn ei hangladd yng Nghapel y Garn gan ei nai Meirion Davies**
Amhosibl fyddai cwmpasu bywyd hir a llawn Megan mewn ychydig eiriau; ymhlith atgofion unigol ac unigryw ei chydnabod. Mi dybiaf y byddai'r geiriau dycnwch, dyfalbarhad, penderfyniad, digrifwch, teyrngarwch, gofal, caredigrwydd a haelioni yn amlwg.

Roedd ei gwreiddiau'n ddwfn a chadarn mewn cylch o ddeg milltir o gwmpas Aberystwyth, cylch sy'n cynnwys Rhos Fawr, Blaen-plwyf; Erwtomau, Cwmrheidol a Thanyreithin, Llandre.

Ganwyd a magwyd Tom, ei thad, yn Nhaigwynion Llandre. Symudodd wedi'r Rhyfel Mawr i weithio yn y fasnach laeth yn Llunden. Magwyd Blodwen, ei mam, yn Erwtomau. Symudodd hithau i Flaengarw i weithio at ei hewythr ac yna i Lunden i weithio yn siop ewythr arall.

Wedi priodi symudodd Tom a Blodwen i Cassland Road, South Hackney, lle ganwyd Megan yn 1926, yn faban bach dau bwys a hanner. Doedd y doctoriaid ddim yn disgwyl iddi fyw, ond fe ffynnodd dan ofal ei rheini. Ymhen ychydig flynyddoedd symudodd y teulu i Masterman Road, East Ham, lle ganwyd Glenys, ei chwaer. Roedd magwraeth y chwiorydd yn nodweddiadol o Gardis Llunden – Cymraeg ar yr aelwyd ac yng Nhapel Jewin, Saesneg ymhlith eu cymdogion a'u cyfoedion ar y stryd ac yn yr ysgol.

Yn 1935 symudodd y teulu yn ôl i Geredigion, yn gyntaf at deulu Blodwen yn Erwtomau ac yna i fferm Rhos Fawr; symud o brysurdeb Llunden i dawelwch cefn gwlad, o siop i fferm, o Saesneg Cockneys i Gymraeg Cardis, o groesi'r stryd i'r ysgol i gerdded milltir fore a phrynhawn i ysgol Chancery.

Croesawyd nifer o'r teulu mewn argyfwng i Ros Fawr yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Rhoddwyd cartref parhaol i dri, sef Margaret, Gareth ac Elizabeth (a Gareth ac Elizabeth yn fabanod ychydig wythnosau oed.) Magodd Anti Blod ac Yncl Tom hwy fel eu plant eu hunain, ochr yn ochr â Megan a Glenys. Un o atgofion cyntaf Gareth yw Megan yn ei dywys i Ysgol Chancery.

Bu Megan yn ysgol Ardwyn am bum mlynedd. Gadawodd yn 1944 i helpu gartref, yna aeth i weithio yn y '*Food Office*' yn gweinyddu'r system llyfrau 'Rations'; wedi hynny cafodd waith yn swyddfa Cwmni Sun Alliance yn Aberystwyth, lle treuliodd bron i ddeugain mlynedd.

Yn 1958 symudodd y teulu o Ros Fawr i 10 Queen Sreet. Bu farw ei thad yn fuan wedyn. Yn 1970 priododd Megan â Mansel Davies a symud i fyw yn Nhanyreithin Llandre, lle'r ymdoddodd i fywyd cymunedol y pentref. Bu'n aelod gweithgar o nifer o gymdeithasau, gan gynnwys Merched y Wawr, y WI, Capel y Garn, Cymdeithas Treftadaeth Llandre, Cymdeithas Hanes Teulu, Clwb Gosod Blodau, Dosbarthiadau gwnïo, Pwyllgor Sioe Rhydypennau, Clwb Garddio, a Chymdeithas yr Henoed, a bu'n drysorydd a threfnydd tripiau y Cylch Crefftau.

Byddai wrth ei bodd gyda phob agwedd o arddio ac yn gystadleuydd cyson yn Sioe Rhydypennau hyd at ddwy flynedd yn ôl, a hithau'n 89 oed. Ei hagwedd at heneiddio oedd gwneud cymaint ag y gallai tra gallai, a hynny'n cynnwys cael gwyliau ledled Prydain a thramor.

Fis Chwefror eleni cafodd wybod fod cancr arni. Roedd yn llwyr ymwybodol o ddifrifoldeb ei salwch ond pan ddywedodd y llawfeddyg wrthi ei fod am ystyried cwrs hegar o chemotherapy, ei hateb oedd '*go ahead*'. Roedd hi'n benderfynol o aros yn Nhanyreithin, ei chartref am bron i hanner can mlynedd, yn ystod y driniaeth, ac yno y buodd hi tan yr wythnosau olaf pan fu'n derbyn gofal yn Ysbyty Bron-glais.

**Merched y Wawr**
Cynhaliwyd noson agoriadol Merched Y Wawr Llandre nos Lun Medi 18. Cawsom noson ddifyr gan Dulcie James a roddodd gwis i'r aelodau. Yr enillwyr o drwch blewyn oedd Gwenda James. Mair England a Glenys Evans.

**Croeso**
Croeso i Llainwen, Lôn Glanfred, i Tony a Glenda Calvert a ymgartrefodd yna o Gapel Bangor.


SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

# Rhodd o £2m gan ddau gyn aelod staff

Mae dau gyn-aelod o staff a gyfarfu a phriodi tra'n gweithio ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi gadael rhodd o £2m i'r sefydliad. Yn gyn-fyfyrwraig, fe adawodd Eleanor a'i gŵr David James gymynrodd am waddol barhaol i ariannu ysgoloriaeth ymchwil i fyfyrwyr ôl-raddedig â chysylltiad agos gydag Aberystwyth neu Gymru. Cafodd yr ysgoloriaethau cyntaf eu cyflwyno ym mis Hydref 2017 i ddau o fyfyrwyr PhD y Brifysgol.

Bu Eleanor a David James, Dolhuan, Llandre, yn gweithio mewn gwahanol adrannau ym Mhrifysgol Aberystwyth am gyfnod o dros 35 mlynedd, o'r 1950au hyd nes iddynt ymddeol yn y 1990au. Ganed Eleanor yn y dref ac fe fynychodd Ysgol Ramadeg Ardwyn cyn mynd yn ei blaen i'r Brifysgol a graddio gyda Doethuriaeth mewn Mathemateg ym 1956. Fe'i penodwyd yn ddarlithydd Mathemateg ym 1957 ac fe ddaeth yn aelod gwerthfawr o grŵp ymchwil Hafaliadau Gwahaniaethol Nonlinear. Roedd Eleanor a David yn aelodau gweithgar o Gymdeithas Cyn-Fyfyrwyr Aberystwyth, gydag Eleanor yn drysorydd am flynyddoedd lawer.

Yn wreiddiol o Fyddfai yn Sir Gaerfyrddin, daeth David i Aberystwyth ym 1955 ar ôl cael ei benodi yn ddarlithydd yn yr Adran Botaneg Amaethyddol. Disgrifiwyd David fel darlithydd ysbrydoledig, ac roedd ganddo brofiad mewn amaethyddiaeth ymarferol yn ogystal â diddordeb arbenigol mewn ffisioleg planhigion. Roedd hefyd yn Ddirprwy Warden ym Mhantycelyn.

Ar ôl ymddeol yn 1990, aeth David ymlaen i ysgrifennu am fywyd crefyddol a chymdeithasol Cymru, gan ganolbwyntio ar hanesion ac arferion y gymdeithas amaethyddol, *Myddfai: its Land and its People a Ceredigion: its Natural History*, astudiaethau o fywyd gwledig, ei fflora a ffawna.

Cafodd penderfyniad y ddau i adael £2m yn eu hewyllys i ariannu gwaith ymchwil uwchraddedig ei gyhoeddi fel rhan o Ddiwrnod Sylfaenwyr y Brifysgol yn yr Hen Goleg ddydd Gwener 13 Hydref 2017.

Dywedodd Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, yr Athro Elizabeth Treasure: "Fel aelodau staff, gwnaeth David ac Eleanor James gyfraniad eithriadol i fywyd prifysgol trwy gyfrwng eu hymchwil, eu haddysgu a'u hysgolheictod. Mae eu hetifeddiaeth yn parhau yn y gymynrhodd hynod hon a fydd yn galluogi myfyrwyr Doethuriaeth am genedlaethau i ddod i feithrin rhagoriaeth yn eu maes a gwella ymhellach gryfderau academaidd y Brifysgol arbennig hon.

Mawr yw ein dyled iddyn nhw ac fe fyddwn ni yn cofio amdanyn nhw wrth i ni gofio'n sylfaenwyr gwreiddiol heddiw."



Y myfyrwyr Ôl-raddedig Ben Hulme a Keziah Garratt-Smithson, 3ydd a 4ydd o'r chwith, yw'r ddau gyntaf i dderbyn cefnogaeth ariannol o gronfa waddol a sefydlwyd o gymynrodd y diweddar Eleanor a David James. Yn y llun hefyd (chwith i'r dde) mae'r Athro Simon Cox, Pennaeth yr Adran Mathemateg; Mr Stephen Lawrence, Llywydd Cymdeithas yr Cyn-fyfyrwyr; Ben Lake AS; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor; Bruce Wright, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth; Louise Jagger, Cyfarwyddwr Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni a Dr Ian Scott o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig.

Annwyl Olygydd,
Hoffwn dynnu eich sylw at wefan meddwl.org, sydd yn wefan Gymraeg yn ymdrin â materion iechyd meddwl.

Gall byw gyda salwch meddwl fod yn brofiad unig a heriol. Mae gwefan meddwl.org yn wefan i ddysgu am anhwylderau gwahanol, darllen am brofiadau eraill, a chael gwybodaeth am ble i gael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefydlwyd y wefan er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg cymorth Cymraeg sydd ar gael i bobl sy'n byw gyda salwch meddwl. Mae'r wefan yn cynnwys manylion cyswllt elusennau all gynnig cymorth iechyd meddwl drwy gyfrwng y Gymraeg, gwybodaeth am gyflyrau iechyd meddwl, blogiau am brofiadau unigolion, fforwm drafod, adran newyddion, a thudalen penodol i bobl ifanc – i gyd yn Gymraeg.

Gallwch ymweld â'r wefan ar meddwl.org. Cofiwch ddilyn @ gwefanmeddwl ar Twitter a hoffi 'Meddwl'ar Facebook hefyd am y wybodaeth diweddaraf.

Yn gywir
Hywel Llyr Jenkins
Saron
Llangwyryfon
Aberystwyth
SY23 4SP
hywelllj@gmail.com
07453 565516

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# Taith i Frwsel Haf 2017




Derbyniodd Glesni Morgan, Pwllglas , gyfle unigryw i fynd ar daith i Frwsel fel gwestai i Tom Jones, Dolanog – sydd yn aelod o'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewropeaidd yn ystod Haf 2017 ar ôl cael ei beirniadu fel siaradwr gorau ei thîm siarad cyhoeddus yn y ffeinal yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Diolch iddi am rannu ei hanes.

Cychwynnom y daith yng ngorsaf drenau Paddington, Llundain er mwyn dal yr 'Eurotunnel' draw i Frwsel. Pan gyrhaeddom ni Frwsel aethom i ymweld â'r Amgueddfa Hanes Ewropeaidd, oedd newydd agor ar y pryd, i ddysgu mwy am hanes ffurfiant yr Undeb Ewropeaidd. Cawsom gyfle i grwydro a mwynhau y profiad o fod yn ymwelydd am gyfnod byr o amgylch dinas Brwsel.

Diwrnod llawn o wleidyddiaeth a chyfarfodydd oedd o'm blaenau ar yr ail ddiwrnod, wrth i ni wrando ar drafodaeth Brexit yn Senedd Economaidd a Chymdeithasol Ewrop. Yn bresennol 'roedd cynrychiolwyr o bob gwlad oedd yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, yn trafod yn eu hiaith eu hun, gyda chyfieithwyr yn cyfieithu i'r gweddill. Nesaf aethom i ymweld â'r Senedd Ewropeaidd i gael blas ar y bwrlwm Gwleidyddol. Cyfarfod gyda Chyngor Ewropeaidd y Ffermwyr Ifanc oedd nesaf lle wnaethom ni drafod dyfodol y mudiad yma heb aelodaeth ffermwyr o Brydain.

Roedd y daith yma'n gyfle bythgofiadwy i ymweld â Brwsel, cyn i ni fel Teyrnas adael yr Undeb Ewropeaidd. Cefais y cyfle i wrando a chyfathrebu gyda phobl o bob cwr o Ewrop, yn ogystal â ehangu fy nealltwriawth Gwleidyddol.

Anogaf bawb i gymryd pob cyfle allgyrsiol, boed hynny yn yr ysgol neu tu hwnt a fel yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc. Datblygais fy sgiliau siarad cyhoeddus fel aelod o'r Ffermwyr ifanc yn gyntaf, cyn cystadlu gyda'r Urdd. Pwrpas y daith yma oedd annog mwy o bobl ifanc i gystadlu mewn cystadlaethau siarad cyhoeddus er mwyn datblygu'r sgil ymysg yr ifanc.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Tom Jones OBE am y cyfle gwych yma ac i'r Urdd am gynnal y cystadlaethau a threfnu taith wefreiddiol.

**Glesni Morgan**




Glesni gyda Rhys Gittins (ffrind i Tom) a Mared Evans, Aelwyd Hafodwenog ym Mrwsel.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Dymuniadau gorau**
Dymuniadau gorau i Beca Vaughan, Pall Mall, Tywyn, wyres Aneurin a Gwen Morgan, Y Bungalow, sydd wedi derbyn Gwobr Cyrhaeddiad Academaidd i astudio Twristiaeth ym Mhrifysgol Met Caerdydd. Hefyd dymuniadau gorau i Tomi, ei brawd, sydd newydd ddechrau Cwrs lefel A yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Dolgellau.

Dymuniadau gorau i Gwen Morgan a syrthiodd ac anafu ei phen-glin yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â John a Carol Marshall ar farwolaeth mam Carol yn ystod y mis diwethaf.

**Urdd y Benywod**
Aeth rhai o aelodau am daith o amgylch Nant yr Arian ac yna nos Lun cyntaf mis Hydref daeth Michael Freeman atom i siarad am dafarnau Ceredigion. Yr oedd yn braf i weld cymaint wedi troi allan a chafwyd noson bleserus yn ei gwmni.

**Cwrdd Diolchgarwch**
Cynhaliwyd ein Cyfarfod Diolchgarwch nos Fercher olaf mis Medi o dan arweiniad y Parchg Ddr Watcyn James. Daeth nifer o ffrindiau o Eglwys Capel Bangor, Capel Pen-llwyn a Dyffryn, Goginan i'n cefnogi eleni eto, ac mi 'roedd yn braf i weld y Capel yn gyffyrddus llawn. Diolch i Delyth Davies am chwarae yr organ ac i bawb a fu yn glanhau ac addurno y Capel eleni eto.

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar gau ar ddydd Llun
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

# I Gofio'n Annwyl am Gwynfor Jones

Ganwyd Gwynfor yn Wileirog Uchaf, Y Borth ar 19 Mai 1926. Yn fab i Thomas Davies Jones ac Elizabeth Mary Jones y ganwyd iddynt dri o blant, sef Eiddwen, Elwyn a Gwynfor. Mynychodd Ysgol Gynradd Rhydypennau ac wedyn Ysgol Sir Machynlleth. Symudodd y teulu o Wileirog Uchaf i Abercwmdolau yn ystod 1943. Penderfynodd Gwynfor fynd ymlaen â'i addysg, gan astudio yng Ngholeg Prifysgol Cymru rhwng 1947-1951 gan ddilyn cwrs gradd BSc mewn Amaethyddiaeth ac Economeg Amaethyddol. Ar ôl gweithio gartref ar y fferm am bedair blynedd, dewisodd ddilyn gyrfa fel amaethwr. Priododd â Glenys ac aethant i fyw i Lwyniorwerth Uchaf, Capel Bangor. Ganwyd pedwar o blant iddynt, sef Rhun, Rhidian, Llinos ac Elin. Maes o law, cafodd hefyd ddau o wyrion, sef Tomos Ifan a Siwan Haf. Roedd yn cael llawer iawn o bleser a mwynhad yn eu cwmni. Cofiwn am yr hwyl di-ri.

Cafodd ei benodi'n Ysgrifennydd, Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor yn 1955, a gwasanaethodd am 57 o flynyddoedd. Bu'n warden y ficer am 20 mlynedd a mwy. Bu'n aelod gweithgar am flynyddoedd o Gyngor Cymuned Parsel Canol ac yna o Gyngor Cymuned Melindwr. Dewiswyd ef yn aelod o Gyngor Sir Dyfed, a gwasanaethodd am 16 o flynyddoedd rhwng 1977 ac 1993, gan gynrychioli Ward Llanbadarn Fawr i ddechrau ac wedyn plwyfi Melindwr, Trefeurig a Blaenrheidol. Yn ystod ei gyfnod gyda'r Cyngor Sir, bu'n Gadeirydd llawer iawn o bwyllgorau.



Bu'n Gadeirydd gydag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr(NFU) Ceredigion a bu hefyd yn Aseswr gyda'r Undeb am flynyddoedd. Ef oedd Cadeirydd Cyntaf y Gymdeithas Tir Glas gyda Mr Hamish Munro yn Ysgrifennydd ar y pryd. Mynychodd y cyfarfodydd yn gyson ers y cychwyn cyntaf. Bu'n aelod gweithgar o Bwyllgor RABI Ceredigion.

Gwnaeth gyfraniad mawr i sawl cylch yn ardal Capel Bangor, Aberystwyth a'r tu hwnt. Bu ei gefnogaeth yn werthfawr a thriw i gymaint o sefydliadau. Bu Gwynfor yn gyfystyr â'r pethau gorau yng Ngheredigion a Chymru, a hynny ym myd amaeth, crefydd, diwylliant a gwleidyddiaeth.

Yn wir, mae sawl cenhedlaeth yn ddyledus iawn iddo am ei arweiniad a'i gyngor, ei ddoethineb a'i gefnogaeth mewn amryw feysydd dros gyfnod maith.

Pan gyhoeddwyd bod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Geredigion, sef i Aberystwyth a'r Cylch, roedd yn falch iawn o'r newyddion, a hynny heb feddwl ar y pryd y cynhelid yr Eisteddfod ar dir Gelli Angharad, a brynwyd yn ystod 1984. Penderfynodd y dylai gefnogi a chynrychioli ar wahanol bwyllgorau yn ystod 1990-1992. Cofiwn am y gwaith stiwardio yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Yna, pan ddaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Geredigion, penderfynodd bod rhaid dangos cefnogaeth unwaith yn rhagor tuag at yr Eisteddfod, a hynny o fewn Etholaeth Melindwr. Bu'n drysorydd am y ddwy flynedd (2008 -2010).

Roedd yn hoff iawn o wylio *Newyddion 9, Newyddion 10, Cefn Gwlad* a *Ffermio*. Roedd gwrando ar y newyddion yn bwysig iawn iddo. Byddai'n gwneud hynny'n ddyddiol.

Cychwynnwyd y fuches Gwartheg Duon Cymreig gan ei dad-cu, Gruffudd Jones a'i dad, Thomas Davies Jones. Penderfynodd Gwynfor a'i frawd Elwyn hwythau gadw a chario ymlaen gyda'r gwartheg duon. Roedd yn meddwl y byd ohonynt.

Roedd yn hoff iawn o fynychu Sioe Amaethyddol Cymru, Llanelwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd cadw dyddiadur yn bwysig iawn iddo, a gwnaeth hynny ers pan oedd yn blentyn ifanc. Byddai'n ysgrifennu gweithgareddau y fferm i lawr yn ddyddiol. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn tyfu gwahanol lysiau yn yr ardd. Roedd yn hoff iawn hefyd o dyfu a gofalu am blanhigion tomatos.

Dyn ei filltir sgwâr ydoedd a diolchwn am gael ei adnabod.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Glenys, ei wraig; Rhun, Rhidian, Llinos ac Elin, ei feibion a'i ferched; Glenys a John, ei ferch-yng-nghyfraith a'i fab-yng-nghyfraith; Tomos a Siwan, ei wyrion; ac Eiddwen, ei chwaer.

*Trefnwyr Angladdau*

***C T Evans***

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**




newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org

William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**STOMP LLYFRAU: LLYFR Y FLWYDDYN**
**7.30, nos Wener, 13 Hydref**
Bydd 9 o bobl yn ceisio perswadio'r gynulleidfa i bleidleisio dros ei ddewis ef/hi o Lyfr y Flwyddyn. Pa lyfr daw i'r brig tybed? Mynediad: £3

**FFAIR AML-DDIWYLLIANNOL**
**11.30-2.30, Sadwrn, 21 Hydref**
Ar ddechrau Wythnos Un Byd, cyfle i ddathlu amrywiaeth ac i brofi rhai o'r diwylliannau gwahanol sy'n rhan o'n cymuned – bwyd, cerddoriaeth, dawnsio, a mwy! Mynediad: £3 (yn cynnwys powlenaid o gawl neu fwyd Indiaidd). Trefnir gan Morlan a Mind Aber. Elw at Mind Aber.

**morlan.cymru**

**Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH**
**01970-617996; post@morlan.cymru**

# Ysgol Pen-llwyn

**Amgueddfa**
Bu dosbarth 1 yn Amgueddfa Ceredigion yn ddiweddar ble cawsant weld pob math o offer golchi fel yn stori *Diwrnod golch Rachel*. Yn ogystal cawsant ddysgu sut oedd gwraig y fferm yn gwneud menyn mewn buddai gorddi. Hyfryd oedd gweld yr Amgueddfa ar ei newydd wêdd ac roedd brwdfrydedd y plant yn amlwg.

**Ymweliad Babi**
Cawsom groesawu bachgen bach 5 mis oed i'r dosbarth a chafodd y plant gyfle i'w ddal ac i weld beth oedd angen arno o ddydd i ddydd.

**Llyfrgell Genedlaethol**
Bu dosbarth 2 a 3 yn y Llyfrgell yn ddiweddar ble cawsant ddysgu mwy am yr Ail Ryfel Byd. Cymerasant ran mewn gweithdai, gweithgareddau a chwis.

**Ymweliad Mrs Jones**
Daeth Mrs Norma Jones i siarad â phlant CA2 am ei phrofiad fel faciwi yn ardal Trefenter. Diddorol iawn oedd gwrando ar y straeon rannodd gyda ni, a'i wneud mor fyw i'r plant.

**Abertawe**
Cafodd plant CA2 gyfle i ymweld â Amgueddfa yr Ail Ryfel Byd a chafodd y plant gyfle i wisgo i fyny mewn dillad o'r cyfnod. Cawsant hefyd gyfle i gerdded o amgylch stryd o'r Ail Ryfel Byd.

**Trawsgwlad Cylch Aberystwyth**
Cymerodd pawb o CA2 ran gydag ymdrech arbennig gan bob un. Llongyfarchiadau i Ana Joyce am ddod yn gyntaf yn ras merched blwyddyn 5, ac i Hedd Hughes am ddod yn 7fed yn ras bechgyn blwyddyn 3.


Mam-gu Iris

**Sustrans**
Erbyn hyn mae'r Ysgol wedi ymuno â chynllun Sustrans sy'n hybu iechyd a lles y disgyblion trwy deithio i'r ysgol. Daeth Sioned atom ni i gynnal gwasanaeth a bwriedir cynnal gweithgareddau yn ystod y flwyddyn.


Trawsgwlad


Sustrans


Trawsgwlad cylch Aberystwyth


Ymweliad 1940au i Abertawe


Abertawe

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru


# Ysgol Craig yr Wylfa

**Trip i Tesco**
Fel sbardun i'w thema, "Archfarchnad", ar ddechrau'r tymor, aeth dosbarth Blwyddyn 2 a 3 ar ymweliad i Tesco, Aberystwyth. Derbyniwyd croeso cynnes gan yr adran "Farm to Fork", ble cawsom gyfle i ymweld â phob twll a chornel o'r siop! Cawsom gyfle i fynd i gefn y siop i weld yr oergelloedd a'r rhewgelloedd enfawr, yr adran dillad, a'r adran Tesco.com. Hefyd bu cyfle i flasu gwahanol fathau o fara ffres, caws a ham. Dysgom lawer iawn o ffeithiau am yr archfarchnad ac o ble a sut yr oedd y bwyd yn teithio i'r siop. Diolch yn fawr i staff Tesco am y croeso.

**Cerdded i'r Caffi**
I gydfynd gyda thema dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1, "Blasus", cerddodd y dosbarth lawr i Gaffi Oriel Tir a Môr. Cawsom groeso twymgalon gyda'r perchennog, Emma Byrne a'r staff, wrth i ni gael ymweld â'r caffi a chael cacen a diod yno. Diolch yn fawr i Emma a staff Caffi Oriel - fe fyddwn nôl yn fuan am baned eto!

**Beicwyr o fri!**
Llongyfarchiadau i griw blwyddyn 5 a 6 a dderbyniodd dystysgrifau am gwblhau'r hyfforddiant beicio.

**Sioe Arad Goch**
Aeth blwyddyn 4, 5 a 6 i wylio sioe arbennig gan Arad Goch o'r enw "Nid fi" a oedd ynglŷn â bwlio yn yr ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau'r sioe yn fawr iawn.

**Bore Coffi McMillan**
Cynhaliwyd bore coffi McMillan lwyddiannus iawn eleni eto! Codwyd tua £150 tuag at yr elusen! Llongyfarchiadau i Ffredi a Daisy am ennill y gystadleuaeth "Bake off" i'r plant, a llongyfarchiadau i Melanie Clift am ennill cystadleuaeth y "Bake off" ar gyfer yr oedolion. Diolch i Yvette am feirniadu'r gystadleuaeth - am dasg anodd! Roedd y cacennau i gyd yn werth eu gweld - da iawn a diolch i'r plant, rhieni a staff a fu'n coginio, y rhai a fynychodd y digwyddiad ac a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at wneud y bore yn un llwyddiannus.

**Trawsgwlad Cylch Aberystwyth.**
Da iawn i bob disgybl o Gyfnod Allweddol Dau a wnaeth gynrychioli'r ysgol yn Ras Trawsgwlad cylch Aberystwyth. Llongyfarchiadau arbennig i Erin sydd ym mlwyddyn 4 a ddaeth yn 8fed. Mi fydd Erin yn mynd drwyddo i'r rownd nesaf. Pob lwc Erin!



Trip i Tesco



Caffi Oriel Tir a Môr



Trip i Tesco



Caffi Oriel Tir a Môr



Beicio



Trawsgwlad

**Pontio ym Mhenweddig**
Mynychodd pob disgybl o flwyddyn 6 ddiwrnod pontio ym Mhenweddig ar ddechrau mis Hydref. Cawsant flas ar fywyd ysgol Uwchradd. 'Roeddent wedi mwynhau yn fawr iawn ac wedi gwneud sawl ffrind newydd.



Sioe Arad Goch

# Ysgol Rhydypennau

**Llysgenhadon Ifanc**

Er mwyn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd yng Ngheredigion mae Llysgenhadon Ifanc wedi eu penodi ar draws ysgolion y Sir. Yn ysgol Rhydypennau penodwyd Gethin Davies o flwyddyn 5 ac fe ail-benodwyd Ella Thomas o flwyddyn 6. Y mae'r ddau wedi derbyn hyfforddiant gan drefnwyr 'Aml sgiliau'r' Sir ac erbyn hyn mae'r ddau yn trefnu sesiynau iechyd a ffitrwydd yn y clwb cyn ysgol pob bore Llun a phob bore Iau o 8:15 ymlaen.

**Trawsgwlad**

Cynhaliwyd Trawsgwlad Cylch Aberystwyth ar ddydd Gwener 29ain o Fedi yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth. Eleni, fe aeth 66 o blant o flynyddoedd 3 i 6. Llwyddodd pob un ohonynt i gwblhau'r cwrs a chafwyd perfformiadau arbennig gan y canlynol gan iddynt orffen yn y deg cyntaf:-

Lleucu Siôn bl 6; Ella Thomas bl 6; Gethin Davies bl 5; Huw Jones bl 3; Daniel Jones bl 3; Caryn James bl 3 a Tali Lee Mc Pherson bl 3.

Mi fyddant nawr yn rhedeg yn erbyn y goreuon o Geredigion fis Ebrill nesaf. Pob hwyl iddynt!

**Arad Goch**

Cafwyd ymweliad arall gan Gwmni Theatr Arad Goch. Perfformiodd y cwmni ddrama gan Mari Rhian Owen o'r enw 'Nid Fi'. Roedd testun y ddrama yn codi ymwybyddiaeth bwlio mewn ysgol gan ganolbwyntio ar y defnydd o dechnoleg sydd yn broblem gynyddol erbyn hyn. Braf oedd gweld Gwawr Keyworth yn perfformio gyda'r criw gan fod Gwawr yn gyn-ddisgybl.

**Peter Jones**

Yn anffodus bu'n rhaid ffarwelio â'r Parchedig Peter Jones. Mae Peter Jones wedi cynnal nifer o'n gwasanaethau dros y blynyddoedd heb anghofio ei gymorth





wrth drefnu ein Diolchgarwch yn yr Eglwys yn Llandre. Y mae wedi bod yn ffrind da i'r ysgol dros y cyfnod. Pob hwyl iddo lawr ym Mhenfro.

**Mynd am dro**

Fel rhan o waith thema'r tymor, cerddodd plant blwyddyn 1 draw i barc Llandre er mwyn cwblhau gwaith maes ar 'Ein Cymuned'. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y plant gyfle i wella eu sgiliau mapio tra'n mwynhau tywydd braf o'r diwedd.

**Cyflwyno a Chroesawu**

Mae tair athrawes newydd wedi ymuno â ni yn ddiweddar; mae Manon Wyn Jones o Gemais yn dysgu blwyddyn 2 yn dilyn ymddeoliad Mrs Helen Jones. Ers i Miss Olwen Morrus ein gadael mae Miss Laura Blakemore o Aberystwyth yn dysgu'r dosbarth Meithrin ac y mae Miss Angharad Edwards o Gapel Bangor yn dysgu Blwyddyn 5. Yr ydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni fel ysgol yn medru denu athrawon mor ddawnus ac ymroddgar. Croeso cynnes a phob hwyl i'r dair.

**Dathlu Hanner Can' Mlwyddiant.**

Faint ohonoch chi sy'n ymwybodol o'r ffaith y sefydlwyd uned Feithrin Rhydypennau nôl ym 1967? Yn wahanol i'r drefn gyfredol nid oedd plant yr ardal yn cael dechrau'r ysgol tan eu bod yn bedair oed. Gwelodd Mrs Bethan Jones (bellach o Waunfawr) gyfle euraid i gynnig sesiynau rheolaidd i blant dair mlwydd oed yn Neuadd Rhydypennau. Mi fydd erthygl ehangach yn cynnwys manylion pellach yn dilyn cyn bo hir.

**Clwb Cant**
**Mis Hydref**

1af - £25 Rhodri Morgan, Maesmieri. Llandre

2il - £15 Huw Davies, Wayside, Bow Street.

3ydd-£10 Idwal Evans, Caemaenllwyd, Machynlleth.







# Ysgol Penrhyn-coch

**Taith i Abertawe**

Ar yr 8fed o Fedi bu disgyblion CA2 ar drip i ail ymweld â chyfnod yr Ail Ryfel Byd ym Mae Abertawe. Cafodd y plant flas go iawn wrth glywed a gwisgo arteffactau hanesyddol.

Cafodd Bl 5 a 6 weithdy cyffrous trwy gynllun Spectrwm lle buom yn cynllunio a pharatoi gweithgareddau i flwyddyn 1 a 2.Cyfle i gydweithio ac i annog disgyblion iau ar egwyddorion lles a pherthnasedd.

**Urdd**

Mae clwb yr Urdd wedi ail gychwyn i'r tymor newydd ac fe fuodd Rhydian - Swyddog yr Urdd - yn ein diddanu gyda sgiliau 'curling' a syrcas-mwynheuodd pawb yn enwedig Mrs Jones!

**Taith Tractorau!**

Eleni eto daeth nifer dda o dractorau i fwynhau y daith anturus o gwmpas y wlad! Braf gweld plant yr Ysgol yn mwynhau'r olygfa ac mae ein diolch yn FAWR i Lynwen Jenkins. Garej Tŷ Mawr, am drefnu eleni eto a chadw pawb ar y ffordd gywir! Codwyd swm arbennig dros £1000 o bunnoedd. Byddwn yn defnyddio'r arian tuag at brynu sgrîn 'clevertouch' i'r ysgol

Diolch i bawb am roi a chodi'r arian – rydym yn ddiolchgar iawn.

**Ymweliadau**

Ar Fedi 25ain buom mewn gweithdy yn y Llyfyrgell Genedlaethol- dyma bwt o adroddiad Logan Bl 4- *Yn y Llyfrgell Genedlaethol buon ni yn dysgu am yr ail ryfel byd.Cefais hwyl achos ddysgon ni lot o bethau doeddwn ni ddim yn gwybod eisioes. Roedd pobl yng Nghymru yn galw yr Ifaciwis yn 'ych a fi' achos eu bod yn drewi.Nid oedd gan pobl digon o olew i greu* dŵr cynnes i *olchi - dyna pam roedd y plant yn drewi yn ofnadwy.*

Trannoeth i'r ymweliad fe ddaeth hen fam-gu Cai a Freya i adrodd ei hanes hi pan oedd yn Ifaciwi. Dyna beth oedd bore i'w gofio. Adroddodd y siwrne i Lanidloes ac am ei phrofiadau. Dangosodd nifer o fwyd dogni – cafodd y plant eu synnu ar cyn lleied oedd pob teulu yn gael. Diolch o galon iddi am roi ei hamser ac am wneud y cyflwyniad mor realistig i'r plant.

Ar Fedi y 27ain tro plant y Cyfnod Sylfaen oedd hi i fynd ar wib ac fe fwynheuon nhw yn Amgueddfa Ceredigion yn y dre – ar ei newydd wedd! Buon nhw'n trafod offer fferm a chartref slawer dydd ac hyd yn oed yn cael tro ar wneud menyn!

**Trawsgwlad**

Aeth holl ddisgyblion yr adran iau i wneud eu gorau wrth redeg yn erbyn ysgolion y cylch –da iawn chi am wneud eich gorau glas – POB lwc i Zak Rhodes ac i Steffan Gillies pan fyddan nhw'n cynrychioli cylch Aber yn y rownd nesaf wedi iddyn nhw ddod yn y deg uchaf yn eu blwyddyn nhw.













# Tasg y Tincer

Diolch i bob un ohonoch chi fu'n lliwio'r llun o'r gacen ben-blwydd y mis diwethaf. Mmm, roedden nhw i gyd yn edrych yn flasus ac yn arbennig o liwgar! Diolch i: Dylan Tooze, Penrhyn-coch; Lucie Medhurst, Penrhyn-coch; Dylan Rhys Herron, Bow Street; Anna Jên Dunne, Bont-goch; Siân Evans, Capel Dewi; Anest, Bow Street; Einion Davies, Llanilar; Betsi ac Elsie Magor, Llansantffraid.

Dylan Herron sy'n ennill y tro hwn – da iawn ti am roi enw'r *Tincer* ar y llun, ac am nodi'r oedran pwysig!

Beth ydech chi'n ei hoffi am yr adeg hon o'r flwyddyn? Mae angen dechrau paratoi at Galan Gaeaf a noson Guto Ffowc, a dwi wrth fy modd yn cransh-cransh-crensian trwy'r dail sy wedi syrthio o'r coed. Ydech chi'n hoffi eu casglu a'u gludo ar ddarn o bapur? Roedd hi'n ddiwrnod pwysig iawn ar 11 Hydref, sef diwrnod pen-blwydd T. Llew Jones. Dyma bennill o un o'i gerddi hyfryd, 'Dawns y Dail':

Fe waeddodd gwynt yr hydref,
Mae'n waeddwr heb ei ail,
"Dewch i sgwâr y pentre i gyd
I weled dawns y dail."

Cofiwch ddefnyddio holl liwiau tymor yr hydref yn y llun y mis hwn. Ewch am dro yn ystod y mis i hel y dail, a beth am geisio darganfod i ba goed maen nhw'n perthyn? Bydd edrych ar y we neu mewn llyfr yn help! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Tachwedd 1af. Ta ta tan toc!



Dylan

Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAEG



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
*Rhif 402 | HYDREF 2017*